

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**Ymchwiliad i ganlyniadau addysgol
plant o gartrefi incwm isel**

Chwefror 2015

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygrych, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 0300 200 6565

E-bost: SeneddPPIA@Cynulliad.Cymru

Twitter: [@SeneddPPIA](https://twitter.com/SeneddPPIA)

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2015

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Ymchwiliad i ganlyniadau addysgol
plant o gartrefi incwm isel

Chwefror 2015

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011. Ei gylch gwaith yw archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar faterion yn ymwneud â gwariant, gweinyddiaeth a pholisi sy'n cwmpasu: addysg, iechyd a lles plant a phobl ifanc Cymru, gan gynnwys eu gofal cymdeithasol.

Ar 22 Ionawr 2014, cytunodd y Cynulliad i newid cylch gwaith y Pwyllgor i gynnwys Addysg Uwch. Bydd y pwnc yn parhau yn rhan o gylch gwaith y Pwyllgor Menter a Busnes hefyd, gyda'r ddau bwyllgor yn ystyried Addysg Uwch o'u safbwyntiau penodol. Enw blaenorol y Pwyllgor oedd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc.

Aelodau cyfredol y Pwyllgor



Ann Jones (Cadeirydd)
Llafur Cymru
Dyffryn Clwyd



Angela Burns
Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro



Keith Davies
Llafur Cymru
Llanelli



Suzy Davies
Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin De Cymru



John Griffiths
Llafur Cymru
Dwyrain Casnewydd



Bethan Jenkins
Plaid Cymru
Gorllewin De Cymru



Lynne Neagle
Llafur Cymru
Tor-faen



David Rees
Llafur Cymru
Aberafan



Aled Roberts
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Gogledd Cymru



Simon Thomas
Plaid Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Roedd yr Aelod canlynol hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



Rebecca Evans
Llafur Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Cynnwys

Argymhellion	5
Crynodeb gweithredol	7
1. Cyflwyniad	15
2. Effeithiolrwydd strategaeth Llywodraeth Cymru	17
Cynllun Amddifadedd Cenedlaethol Addysg a Sgiliau: Ailysgrifennu'r dyfodol	17
Adroddiad Comisiwn Symudedd Cymdeithasol a Thlodi Plant y DU	17
Effaith y Cyfnod Sylfaen	18
Pecyn Cymorth Ymddiriedolaeth Sutton	18
Targedau Llywodraeth Cymru	19
3. Grant Amddifadedd Disgyblion	26
Ymestyn y Grant Amddifadedd Disgyblion i blant 3 a 4 oed	26
Gwerthusiad o'r Grant Amddifadedd Disgyblion: Adroddiad Blwyddyn 1 ..	26
Monitro'r defnydd o arian Grant Amddifadedd Disgyblion	29
4. Her Ysgolion Cymru	33
Meini prawf ar gyfer dewis yr ysgolion	33
Cyllid	34
Safbwynt y Pwyllgor.....	36
5. Cyflawni Polisi Llywodraeth Cymru	38
Rôl athrawon / penaethiaid / cyrff llywodraethu / awdurdodau lleol / consortia rhanbarthol	38
Ymgysylltiad rhieni.....	39
Atodiad A - Tystiolaeth ysgrifenedig	46
Atodiad B – Tystiolaeth lafar	47

Argymhellion

Argymhelliad 1. Dylai'r Gweinidog adolygu ac egluro rôl y Cyfnod Sylfaen er mwyn sicrhau y gall gyfrannu at well canlyniadau i blant o deuluoedd incwm isel. (Tudalen 24)

Argymhelliad 2. Dylai'r Gweinidog ddiwygio'r targed ar gyfer disgyblion 7 oed (y dangosydd Cyfnod Sylfaen) i'w wneud yn fwy heriol, er mwyn cyflawni dyheadau Llywodraeth Cymru. (Tudalen 25)

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, fel Pecyn Cymorth Ymddiriedolaeth Sutton, yn cael eu defnyddio bob amser. (Tudalen 25)

Argymhelliad 4. Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor cyn gynted ag y bo modd ar y cynnydd tuag at fodloni gofynion Llywodraeth Cymru ei bod yn ofynnol i ysgolion gyhoeddi manylion o ran eu defnydd o'r Grant Amddifadedd Disgyblion ar eu gwefan eu hunain (neu ar wefan y consortiwm perthnasol). (Tudalen 32)

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu tystiolaeth i'r Pwyllgor yn ymwneud â'r penderfyniad am faint o gyllid a fynnir fesul disgybl ar gyfer plant 3 a 4 oed. (Tudalen 32)

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y Grant Amddifadedd Disgyblion yn sicrhau'r canlyniadau a fwriadwyd ar gyfer disgyblion ac yn sicrhau gwerth am arian. Dylai ymateb yn gyflym os oes tystiolaeth mai bach iawn yw'r effaith. (Tudalen 32)

Argymhelliad 7. Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar frys ynghylch ariannu'r elfen £7.9 miliwn o'r gronfa Her o gyllideb addysg a sgiliau sy'n bodoli eisoes, gan gyfeirio'n benodol at y llinellau gwariant y mae dyraniadau wedi cael eu trosglwyddo ohonynt. (Tudalen 37)

Argymhelliad 8. Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y symiau o arian a'r defnydd a wneir o gyllid sydd wedi ei ddyrannu'n benodol i'r Consortia o gronfa Her Ysgolion Cymru. (Tudalen 37)

Argymhelliad 9. Dylai'r Gweinidog gryfhau ac egluro canllawiau i ysgolion ynghylch codi tâl am weithgareddau sy'n ymwneud ag addysg. Os nad yw'r Gweinidog yn fodlon bod canllawiau presennol wedi cael yr effaith angenrheidiol, dylai gyflwyno canllawiau statudol. (Tudalen 45)

Argymhelliad 10. Dylai'r Gweinidog gyhoeddi canllawiau i ysgolion er mwyn sicrhau eu bod yn ei gwneud yn glir i rieni beth yw dibenion addysgol teithiau ysgol arfaethedig. (Tudalen 45)

Argymhelliad 11. Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ei waith o werthuso'r defnydd o staff nad ydynt yn addysgu, fel swyddogion cyswllt ysgolion. (Tudalen 45)

Argymhelliad 12. Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor o fewn 6 mis ar gynnydd y mentrau i hyrwyddo ymgysylltiad rhieni, gan gynnwys y Pecyn Cymorth Ymgysylltu â'r Teulu a'r Gymuned. (Tudalen 45)

Crynodeb gweithredol

1. Mae addysg yng Nghymru yn mynd drwy newidiadau sylweddol. Ers i'w ymchwiliad ddechrau, mae nifer o bolisiau newydd ac adroddiadau gwerthuso polisiau presennol wedi cael eu cyhoeddi. Bydd cyhoeddi casgliadau adolygiad Donaldson o'r cwricwlwm yn cael cryn effaith ar ddyfodol addysg yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r egwyddorion a'r negeseuon allweddol yn yr adroddiad hwn yn dal eu tir ac maent yn berthnasol i strategaethau a pholisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer y dyfodol.

Effeithiolrwydd strategaeth Llywodraeth Cymru

2. Mae Llywodraeth Cymru yn wynebu heriau sylweddol o ran cau'r bwlch cyrhaeddiad ar gyfer plant o deuluoedd incwm isel. Mae nifer o raglenni a mentrau wedi cael eu cyflwyno dros y blynyddoedd diwethaf, a nid oes yr un ohonynt wedi dangos llwyddiant sylweddol o ran cau'r bwlch cyrhaeddiad.

3. Roedd canfyddiadau Comisiwn Symudedd Cymdeithasol a Thlodi Plant y DU, bod angen newid ar frys, yn bryder i'r Pwyllgor. Mae'r ffaith bod cyrhaeddiad plant Cymru sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yng Nghymru yn is na'r rhan fwyaf o ardaloedd Lloegr yn dangos yr heriau y mae'r Gweinidog yn eu hwynebu.

4. Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i'r mater hwn a'i fod wedi nodi ei fod yn flaenoriaeth ar gyfer ei adran. Er bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud ar draws y cyfnodau allweddol yn y blynyddoedd diwethaf, ni ddylid diystyru maint y newid sydd ei angen i ateb yr her hon.

5. Er bod polisiau wedi'u hanelu at wella lefelau cyrhaeddiad yn gyffredinol yn cael eu croesawu, maent yn arwain at yr effaith bod "llanw sy'n codi yn codi pob llong". Ni fydd hyn yn arwain at gau'r bwlch cyrhaeddiad. Rhaid i bolisiau gael eu targedu'n benodol at godi cyrhaeddiad disgyblion o deuluoedd incwm isel.

6. Fel mater o flaenoriaeth, rhaid i Lywodraeth Cymru gadw llygad barcud ar ganfod a yw ei mentrau cyllido a pholisi sydd â'r nod o gau'r bwlch yn cyflawni'r canlyniadau a fwriedir ar gyfer disgyblion, ynghyd â gwerth am arian. Dylai hefyd ymateb yn gyflym os oes tystiolaeth mai bach iawn yw'r effaith.

7. Dylai Llywodraeth Cymru barhau â'i hymdrechion i sicrhau bod ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn meddu ar ddealltwriaeth a rennir o ran graddfa'r newid a ddisgwylir.

Effaith y Cyfnod Sylfaen

8. Rydym yn nodi bod yr arfarniad o'r Cyfnod Sylfaen wedi canfod nad yw wedi cael effaith ar lefelau cyrhaeddiad plant o deuluoedd incwm isel. Dywedodd y Gweinidog nad prif ddiben y Cyfnod Sylfaen oedd mynd i'r afael â'r bwlch mewn cyrhaeddiad.

9. Fodd bynnag, o gofio mai un o nodweddion pwysig y Cyfnod Sylfaen oedd lleihau anghydraddoldebau mewn canlyniadau cymdeithasol ac addysgol, byddem yn disgwyl iddo wneud rhywfaint o gyfraniad tuag at gau'r bwlch hwnnw. Rhaid i Lywodraeth Cymru ddatblygu dealltwriaeth o'r rhesymau dros y diffyg effaith a cheisio mynd i'r afael â hwy, er mwyn sicrhau bod potensial llawn y rhaglen yn cael ei wireddu.

10. Caiff ymrwymiad y Gweinidog i adolygu targed y Cyfnod Sylfaen ei groesawu. Credwn fod angen i'r targed hwn fod yn fwy heriol.

Targedau

11. Bu rhywfaint o gynnydd yn y blynyddoedd diwethaf, ond, mae'n amlwg o ystadegau Llywodraeth Cymru ei hun nad yw cyflymder y newid yn ddigonol i gwrdd â'i dyheadau ym mhob cyfnod allweddol.

12. Er bod y bwlch yn llai ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, dengys yr ystadegau diweddaraf fod y bwlch yng nghyfnod allweddol 4 wedi agor am y tro cyntaf ers 2010. Mae perfformiad disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim wedi gwella 4.4 pwynt canran ers pennu'r targed yn 2011/12 ac mae angen i'w perfformiad gynyddu 9.2 pwynt canran eto dros y tair blynedd nesaf i gyrraedd targed Llywodraeth Cymru.

13. Nodwn y farn a fynegwyd gan dystion fod angen cael cynllun clir ar gyfer sut y gellir cyrraedd y targedau hyn yn ymarferol. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod nifer o bolisiau uchelgeisiol a llawn bwriadau da ar waith, ond heb unrhyw eglurder na chefnogaeth unffurf ar gyfer eu cyflawni. Nodwn bod Llywodraeth Cymru, ers dechrau ein hymchwiliad, wedi cyhoeddi ei Chynllun Amddifadedd Cenedlaethol: Ailysgrifennu'r dyfodol.

14. Er y bu rhywfaint o gynnydd tuag at gyrraedd targedau, mae'r Pwyllgor yn pryderu nad yw cyflymder y newid yn ddigonol i fodloni dyheadau datganedig Llywodraeth Cymru. Mae angen i dargedau Llywodraeth Cymru fod yn ymestyn, ond ni ddylent fod mor anodd i'w cyrraedd fel na ellir eu cyflawni. Bydd y Pwyllgor hefyd yn parhau i adolygu cynnydd yn rheolaidd.

Pecyn Cymorth Ymddiriedolaeth Sutton

15. Roedd y Pwyllgor yn pryderu am y dystiolaeth yn ymwneud â lefelau isel o'r defnydd o Becyn Cymorth Ymddiriedolaeth Sutton. Er bod y Pwyllgor yn derbyn nad oes barn gyffredinol gyson ar p'un a yw'r pecyn cymorth yn cynnwys yr holl dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth a allai fod yn berthnasol yng Nghymru, mae'n amlwg bod dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn hanfodol wrth gyflwyno gwelliannau. Dylai ysgolion fod yn gallu dangos sut mae'r dull a ffeffrir ganddynt yn seiliedig ar dystiolaeth.

Argymhellion

Dylai'r Gweinidog adolygu ac egluro rôl y Cyfnod Sylfaen er mwyn sicrhau y gall gyfrannu at well canlyniadau i blant o deuluoedd incwm isel.

Dylai'r Gweinidog ddiwygio'r targed ar gyfer disgyblion 7 oed (y dangosydd Cyfnod Sylfaen) i'w wneud yn fwy heriol, er mwyn cyflawni dyheadau Llywodraeth Cymru.

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, fel Pecyn Cymorth Ymddiriedolaeth Sutton, yn cael eu defnyddio bob amser.

Grant Amddifadedd Disgyblion

Gwerthusiad o'r Grant Amddifadedd Disgyblion

16. Mae'r Pwyllgor yn croesawu rhai o'r agweddau cadarnhaol sy'n deillio o'r Grant Amddifadedd Disgyblion, fel yr amlinellir yn adroddiad gwerthuso Llywodraeth Cymru o Flwyddyn 1 y rhaglen. Fodd bynnag, mae nifer o feysydd sy'n peri pryder, gan gynnwys a yw'r defnydd o'r grant yn cael ei dargedu at blant o gefndiroedd difreintiedig (yn hytrach na disgyblion sy'n tangyflawni yn gyffredinol) a bod y buddsoddiad hwn yn y tymor hwy yn dangos gwell canlyniadau ar gyfer disgyblion. Rydym yn nodi, er enghraifft, mai dim ond 60% o blant mewn ysgolion cynradd a 72% o blant mewn ysgolion uwchradd wnaeth elwa o'r Grant Amddifadedd Disgyblion a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu a oedd yn blant sy'n derbyn gofal.

17. Mae adroddiad gwerthuso Blwyddyn 1 yn cydnabod ei bod yn rhy gynnar yn y broses i asesu effaith y Grant Amddifadedd Disgyblion yn iawn. Yn ein barn ni, mae'n anodd, felly, i Lywodraeth Cymru benderfynu ar hyn o bryd a yw'r rhaglen yn sicrhau gwerth am arian. Bydd y Pwyllgor yn cymryd diddordeb parhaus yn hyn o ystyried y symiau sylweddol sydd ar gael i

ysgolion unigol. Nid ydym am weld Llywodraeth Cymru yn ailgreu sefyllfa lle nad yw buddsoddiad yn cael effaith ganfyddadwy ar gyfer y grŵp targed o ddisgyblion, fel yr hyn a ddigwyddodd gyda'r grant blaenorol yn 2006 (Rhagori), a oedd â nodau tebyg.

18. Ymddengys nad yw bob ysgol yn glir ynghylch yr angen i ddefnyddio ymyriadau sydd wedi'u profi i fod yn effeithiol o ran gwella canlyniadau i ddisgyblion o gartrefi incwm isel. Mae'r ffaith bod llai na hanner yr ysgolion yn defnyddio Pecyn Cymorth Ymddiriedolaeth Sutton, er gwaethaf pwyslais Llywodraeth Cymru ar ei ddefnydd, yn awgrymu diffyg dealltwriaeth bod yn rhaid i ymyriadau a ariannwyd gan y Grant Amddifadedd Disgyblion fod yn seiliedig ar dystiolaeth y byddant yn sicrhau newid mewn canlyniadau disgyblion.

19. Rydym yn cytuno â sylwadau'r Gweinidog fod anghenion plant yn gymhleth a bod angen amrywiaeth o ymyriadau i ymateb i hynny. Dylid caniatáu i ysgolion ymateb i anghenion penodol eu plant mewn ffyrdd dychmygus. Fodd bynnag, dylai unrhyw ddulliau o'r fath fod yn seiliedig ar dystiolaeth.

20. Rhaid bod cynnydd mewn tryloywder am y gweithgareddau a'r rhaglenni y mae ysgolion yn eu cyllido drwy'r Grant Amddifadedd Disgyblion. Rydym yn pryderu y bu anghysondeb o ran i ba raddau y mae ysgolion yn cyhoeddi'r data ac i ba raddau y mae consortia rhanbarthol yn monitro a yw hyn yn cael ei wneud. Rydym yn nodi sylwadau'r Gweinidog y bydd yn ofynnol i ysgolion gyhoeddi ar beth y mae eu Grant Amddifadedd Disgyblion yn cael ei wario, naill ai ar eu gwefannau neu ar wefan y consortiwm perthnasol. Rydym yn croesawu'r datblygiad hwn a byddwn yn gofyn am ddiweddariad ar gynnydd cyn bo hir.

21. Rhaid i Lywodraeth Cymru wneud trefniadau i fonitro effeithiolrwydd y rhaglen gyffredinol yn drylwyr, er mwyn sicrhau ei bod yn cael yr effaith angenrheidiol ac yn sicrhau gwerth am arian.

Ymestyn y Grant Amddifadedd Disgyblion

22. Noda'r Pwyllgor fod ysgolion wedi croesawu ymestyn y Grant Amddifadedd Disgyblion i blant 3 a 4 oed. Fodd bynnag, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y problemau y cyfeirir atynt uchod yn cael sylw, er mwyn gwireddu effaith fwyaf yr arian ychwanegol hwn.

23. Noda'r Pwyllgor fod cyllid o £300 wedi cael ei ddyrannu fesul pob disgybl cymwys 3 a 4 oed. Fodd bynnag, nid yw'n glir sut y penderfynwyd ar

y ffigur hwn ac a fydd yn briodol, yn arbennig o gofio pwyslais datganedig Llywodraeth Cymru ar ymyriadau cynnar. Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod mentrau Llywodraeth Cymru yn cael eu hymestyn y tu hwnt i'w gylch gwaith gwreiddiol pan nad yw eu gwerth wedi'i ganfod eto. Bwriad y Pwyllgor yw parhau i adolygu hyn, a bydd yn ceisio cael sicrwydd gan Lywodraeth Cymru y bydd y buddsoddiad ychwanegol hwn yn sicrhau gwahaniaeth mesuradwy mewn canlyniadau i blant o gartrefi incwm isel.

Argymhellion

Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor cyn gynted ag y bo modd ar y cynnydd tuag at fodloni gofynion Llywodraeth Cymru ei bod yn ofynnol i ysgolion gyhoeddi manylion o ran eu defnydd o'r Grant Amddifadedd Disgyblion ar eu gwefan eu hunain (neu ar wefan y consortiwm perthnasol).

Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu tystiolaeth i'r Pwyllgor yn ymwneud â'r penderfyniad am faint o gyllid a fyynnir fesul disgybl ar gyfer plant 3 a 4 oed.

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y Grant Amddifadedd Disgyblion yn sicrhau'r canlyniadau a fwriadwyd ar gyfer disgyblion ac yn sicrhau gwerth am arian. Dylai ymateb yn gyflym os oes tystiolaeth mai bach iawn yw'r effaith.

Her Ysgolion Cymru

24. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y rhaglen hon yn newydd iawn ac mae ganddo feddwl agored o ran ai dyma'r agwedd gywir ac a all gyflawni gwelliannau ar y raddfa sydd ei hangen. Er bod rhaglenni tebyg wedi cael rhywfaint o lwyddiant, yn enwedig Her Llundain, roedd canfyddiadau'r gwerthusiad o City Challenge yn fwy cymysg.

25. Noda'r Pwyllgor yr adborth gan benaethiaid ysgolion ym Manceinion yn benodol, lle roedd llai na hanner yn priodoli'r effeithiau yn eu hysgol i'r Her. Ar ben hynny, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod y City Challenge wedi methu yn yr Ardal Ddu, lle mae cyfran yr ysgolion a ystyrir i fod yn "annigonol" gan Ofsted wedi cynyddu.

26. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y gwersi o raglenni Her blaenorol yn cael eu dysgu. Ar ben hynny, dylai'r elfennau y gellir eu cysylltu â chanlyniadau llwyddiannus, yn hytrach na'r model yn ei gyfanrwydd, gael eu datblygu yng Nghymru. Mae'n rhaid nodi ymyriadau effeithiol a rhannu

arferion gorau yn effeithiol er mwyn manteisio'n llawn ar effaith y rhaglen. Dylai Llywodraeth Cymru nodi unrhyw ffactorau y tu allan i'r Her a allai fod wedi cyfrannu at lwyddiant, a cheisio sicrhau y caiff y ffactorau hynny eu rhoi ar waith hefyd.

Cyllid

27. Mae gan y Pwyllgor nifer o bryderon o ran y trefniadau cyllido ar gyfer yr Her.

28. O'r £20 miliwn a ddyrannwyd i'r rhaglen, mae'n rhaid dod o hyd i £7.9 miliwn o gyllidebau addysg a sgiliau sy'n bodoli eisoes. Mae'r Pwyllgor yn pryderu am yr effaith y gallai hyn ei chael ar raglenni neu fentrau eraill ac yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog cyn gynted â phosibl.

29. Mae'r Pwyllgor yn deall bod £3.9 miliwn o gyfanswm y gyllideb wedi cael ei ddyrannu yn uniongyrchol i'r Consortia. Mae'r Pwyllgor yn gofyn am eglurhad ar frys o ddiben y cyllid ychwanegol hwn a'r trefniadau ar gyfer monitro gwariant o gronfeydd o'r fath.

30. Noda'r Pwyllgor sylwadau'r Gweinidog y gallai cyfran o'r arian a ddyrannwyd gael ei defnyddio i ariannu prosiectau cyfalaf. Mae'r Pwyllgor yn gofyn am wybodaeth bellach am y mater hwn a'r trefniadau monitro sydd wedi cael eu rhoi ar waith i sicrhau gwerth am arian.

31. Noda'r Pwyllgor sylwadau'r Gweinidog fod gan y Consortia rôl oruchwylio mewn perthynas â chyllid. Nid oes gan y Pwyllgor unrhyw dystiolaeth i awgrymu y gall Consortia arfer swyddogaeth o'r fath yn effeithiol ar hyn o bryd. Felly, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru barhau i adolygu'r trefniadau hyn yn drylwyr.

Argymhellion

Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar frys ynghylch ariannu'r elfen £7.9 miliwn o'r gronfa Her o gyllideb addysg a sgiliau sy'n bodoli eisoes, gan gyfeirio'n benodol at y llinellau gwariant y mae dyraniadau wedi cael eu trosglwyddo ohonynt.

Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y symiau o arian a'r defnydd a wneir o gyllid sydd wedi ei ddyrannu'n benodol i'r Consortia o gronfa Her Ysgolion Cymru.

Cyflawni Polisi Llywodraeth Cymru

32. Un o'r negeseuon allweddol i ddeillio o'r ymchwiliad hwn oedd y bydd effaith unrhyw raglen neu bolisi yn gyfyngedig, ni waeth pa mor uchelgeisiol ydyw, heb ddulliau effeithiol o ran ei darparu. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd arweinyddiaeth ysgolion ar gyfer yr agenda hon. Ers creu'r consortia, rydym yn pryderu efallai bod eu rolau mewn perthynas ag awdurdodau lleol wedi arwain at ddiffyg eglurder, yn enwedig o ran cyfrifoldeb ac atebolrwydd.

33. Bydd yn anodd i ysgolion ar eu pen eu hunain sicrhau'r newid ar y raddfa sydd ei hangen i gau'r bwlch cyrhaeddiad. Rydym wedi clywed tystiolaeth helaeth y gallai ymgysylltiad gwell rhwng ysgolion a rhieni, pe bai'n cael ei ddefnyddio'n gywir, gyfrannu'n sylweddol at gyflawni'r newid sydd ei angen. Clywsom rai enghreifftiau gwych o sut mae hyn yn digwydd mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru. Fodd bynnag, mae arfer da yn anghyson iawn ar draws Cymru ac, mewn rhai achosion, nid oes y fath beth ag ymgysylltiad rhieni.

34. Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i ymgysylltu â rhieni ac yn croesawu ymgyrch Llywodraeth Cymru, "Mae addysg yn dechrau yn y cartref" a chyhoeddi'r "Pecyn Cymorth i Ymgysylltu â'r Teulu a'r Gymuned" cyn bo hir. Yr her i Lywodraeth Cymru yw sicrhau bod pob corff llywodraethu ac ysgolion yn sgil hynny yn cefnogi'r agenda hon.

35. Roeddem yn bryderus iawn o glywed tystiolaeth am y costau cudd sy'n gysylltiedig ag addysg. Rhoddwyd nifer o enghreifftiau i'r Pwyllgor, gan gynnwys un lle roedd un rhiant wedi gwario cyfran sylweddol o gyllideb siopa bwyd wythnosol y teulu ar gynhwysion i'w plentyn i'w defnyddio mewn arholiad ymarferol TGAU Economeg y Cartref.

36. Roedd y Pwyllgor yn pryderu hefyd am dystiolaeth a ddaeth i law bod rhai ysgolion yn trefnu teithiau tramor gyda gwerth addysgol sy'n ddibwys. Mae'r Pwyllgor hwn yn cefnogi'r defnydd o deithiau ysgol, ond dylent fod yn amlwg o werth addysgol neu gyfrannu at ddatblygiad y disgyblion. Os yw taith ysgol o werth addysgol, rydym yn disgwyl na ddylai costau rwystro unrhyw blentyn rhag cymryd rhan.

37. Roedd diffyg eglurder wrth gyfleu'r wybodaeth i rieni bod rhai taliadau yn wirfoddol. Dylai'r Gweinidog gryfhau ac egluro canllawiau i ysgolion ynghylch codi tâl am weithgareddau sy'n ymwneud ag addysg. Dylai'r Gweinidog archwilio'r posibilrwydd o gyflwyno canllawiau statudol, os nad yw'n fodlon bod y canllawiau presennol wedi cael yr effaith angenrheidiol.

38. Yn olaf, nododd y Pwyllgor yr ymateb cadarnhaol a gafwyd gan rieni i staff nad ydynt yn addysgu, fel swyddogion cyswllt ysgolion. Gallant chwarae rhan bwysig, yn enwedig o ran ymgysylltu â'r teuluoedd hynny sydd fwyaf anodd eu cyrraedd, drwy feithrin perthynas ac ymddiriedaeth. Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i wneud rhywfaint o waith i archwilio'r effaith a gaiff rolau o'r fath.

Argymhellion

Dylai'r Gweinidog gryfhau ac egluro canllawiau i ysgolion ynghylch codi tâl am weithgareddau sy'n ymwneud ag addysg. Os nad yw'r Gweinidog yn fodlon bod canllawiau presennol wedi cael yr effaith angenrheidiol, dylai gyflwyno canllawiau statudol.

Dylai'r Gweinidog gyhoeddi canllawiau i ysgolion er mwyn sicrhau eu bod yn ei gwneud yn glir i rieni beth yw dibenion addysgol teithiau ysgol arfaethedig.

Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ei waith o werthuso'r defnydd o staff nad ydynt yn addysgu, fel swyddogion cyswllt ysgolion.

Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor o fewn 6 mis ar gynnydd y mentrau i hyrwyddo ymgysylltiad rhieni, gan gynnwys y Pecyn Cymorth Ymgysylltu â'r Teulu a'r Gymuned.

1. Cyflwyniad

39. Ym mis Mehefin 2013, cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad o effeithiolrwydd polisiau Llywodraeth Cymru o ran mynd i'r afael â chanlyniadau addysgol plant o gartrefi incwm isel. Bwriad y Pwyllgor oedd cynnal ymchwiliad eang, gan ganolbwyntio ar nifer o feysydd polisi penodol.

40. Yn seiliedig ar y dystiolaeth a gafodd y Pwyllgor yn ystod rhan gyntaf ei ymchwiliad, a gyda'r wybodaeth bod y Gweinidog yn bwriadu lansio nifer o fentrau cysylltiedig, penderfynodd y Pwyllgor gynnal darn ychwanegol o waith yn canolbwyntio ar ymgysylltiad rhieni a chostau addysg.

41. Ysgrifennodd y Pwyllgor at y Gweinidog i gyfleu ei ganfyddiadau cychwynol ym mis Ebrill 2014. Mae llythyr y Pwyllgor wedi'i gynnwys yn Atodiad A. Mae ymateb y Gweinidog yn Atodiad B.

Ymholiadau Blaenorol y Pwyllgor

42. Cynhaliodd Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc y Trydydd Cynulliad ymchwiliad a chyhoeddodd adroddiad ym mis Tachwedd 2008: Tlodi Plant yng Nghymru: Ai Addysg yw'r Ateb? Cynhaliwyd sesiynau craffu unigol dilynol yn 2009 a 2010. Cyhoeddwyd adroddiad yr Ymchwiliad dilynol i dlodi plant: ai addysg yw'r ateb ym mis Chwefror 2011.

Dull y Pwyllgor o weithredu

43. Yn ystod ei ymchwiliad, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Estyn;
- Yr Athro David Egan;
- Sefydliad Bevan; ac
- Achub y Plant.

44. Cynhaliodd y Pwyllgor sesiynau tystiolaeth gyda'r Gweinidog Addysg a Sgiliau ar ddau achlysur yn ystod ei ymchwiliad.

45. Clywodd yr aelodau hefyd gan:

- Rieny yn Abertawe a Wrecsam yn ystod ymweliadau anffurfiol;
- Staff a rhiant yn gysylltiedig â gwaith Cymunedau sy'n Canolbwyntio ar Ysgolion yng Nglyncoch, Rhondda Cynon Taf;

- Staff o CaST Cymru ac Ysgol Uwchradd Eirias;
- Staff o dair ysgol gynradd sydd â lefelau uwch na'r cyfartaledd a lefelau uchel iawn o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim: Ysgol Gynradd Blaenymaes (Abertawe); Ysgol Gynradd Goetre (Merthyr Tudful); Ysgol Gynradd Pillgwenny (Casnewydd);
- Staff o ddwy ysgol uwchradd gyda lefelau uwch na'r cyfartaledd a lefelau uchel iawn o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim: Ysgol Gyfun Sandfields (Port Talbot) ac Ysgol Uwchradd Casnewydd.

46. Ymwelodd aelodau'r Pwyllgor ag Ysgol Gynradd Tregadwg yn y Barri, gyda'r bwriad o ymwled ag ysgol i gael trafodaethau anffurfiol am yr heriau o fynd i'r afael â chanlyniadau addysgol plant o gartrefi incwm isel.

2. Effeithiolrwydd strategaeth Llywodraeth Cymru

47. Roedd y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion (2008), sef polisi allweddol datganedig Llywodraeth Cymru ar gyfer diwygio addysg, yn nodi tair blaenoriaeth rhyng-gysylltiedig: gwella lefelau llythrennedd; gwella lefelau rhifedd; a lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol. Yn dilyn hynny, rhoddwyd cryn bwyslais ar strategaeth a oedd yn ceisio gwella safonau llythrennedd a rhifedd.

48. Mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau presennol wedi cyfeirio at gau'r bwlch cyrhaeddiad ar gyfer plant o gartrefi incwm isel fel 'prif flaenoriaeth' ei adran.

Cynllun Amddifadedd Cenedlaethol Addysg a Sgiliau: Ailysgrifennu'r dyfodol

49. Ym mis Tachwedd 2013, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau fod Llywodraeth Cymru yn datblygu 'Cynllun Amddifadedd Cenedlaethol', ac ym mis Mehefin 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau a oedd yn anelu at godi cyrhaeddiad dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig, o dan yr enw 'Ailysgrifennu'r dyfodol'. Cafodd llinell amser ar gyfer gweithredu ei chyhoeddi ochr yn ochr â'r canllawiau hyn hefyd. Mae'r canllawiau yn seiliedig ar bedair thema:

- Ymgysylltu â'r Teulu a'r Gymuned;
- Y Blynyddoedd Cynnar;
- Addysgu a Dysgu o Safon Uchel; a
- Disgwyliadau a Dyheadau Uchel.

Adroddiad Comisiwn Symudedd Cymdeithasol a Thlodi Plant y DU

50. Cafodd ail adroddiad blynyddol [Comisiwn Symudedd Cymdeithasol a Thlodi Plant y DU](#), sef State of the Nation, ei gyhoeddi ym mis Hydref 2014, ac roedd yn datgan:

“We are especially concerned that poor pupils in Wales lag behind those elsewhere in the UK with only 26 per cent of Welsh children who are eligible for free school meals achieving five good GCSEs (including English and maths) compared with 38 per cent of children eligible for free school meals in England.”

51. Dywedodd yr Adroddiad hefyd:

“Better-off pupils are more than twice as likely as those eligible for FSM to achieve five good GCSEs (including English or Welsh and mathematics). The attainment of Welsh children eligible for FSM is lower than in all but six of the 152 local authority areas in England. This is unacceptable and means that too many poor children in Wales are being let down by the existing schools system. Change is urgently needed.”

Effaith y Cyfnod Sylfaen

52. Canfu'r adroddiad cyntaf i ganlyniadau ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen, ac a gyhoeddwyd yn 2013, nad oedd y rhaglen yn gysylltiedig â newidiadau yn y gwahaniaethau mewn canlyniadau rhwng is-grwpiau o'r boblogaeth, fel y rhai a ddiffinnir yn ôl rhyw, ethnigrwydd a chefnidir economaidd-gymdeithasol. Gan gyfeirio at ddisgyblion a gaiff brydau ysgol am ddim a disgyblion ag anghenion addysgol arbennig, dywedodd yr adroddiad lle mae'r potensial mwyaf ar gyfer culhau anghydraddoldebau, dengys fod y patrymau a oedd yn bodoli cyn cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn parhau ar ôl ei gyflwyno.¹

Pecyn Cymorth Ymddiriedolaeth Sutton²

53. Roedd Cynllun Gwella Ysgolion Llywodraeth Cymru yn 2012 yn nodi y byddai'n ofynnol i bob ysgol ddefnyddio pecyn cymorth Ymddiriedolaeth Sutton, neu ddulliau eraill a oedd yn seiliedig ar dystiolaeth, erbyn mis Rhagfyr 2012. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau wrth y Pwyllgor fod gwerthusiad Llywodraeth Cymru o'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn dangos fel pe bai'r cyfeiriad at y Pecyn Cymorth yn ymddangos yn isel yng Nghymru.

Materion

54. Dywedodd NUT Cymru wrth y Pwyllgor fod y bwriad y tu ôl i'r polisiâu yn dda ac yn uchelgeisiol, ond nid oes llawer o eglurder o ran cyfeiriad y camau ymarferol, na chefnogaeth unffurf, sy'n sicrhau bod gweithredu a chyflawni yn dilyn.

¹ <http://wales.gov.uk/statistics-and-research/evaluation-foundation-phase/>

² [Sutton Trust-EEF Teaching and Learning Toolkit](#) [fel ar 11 Tachwedd 2013]

55. Teimlai Estyn fod yr arfer yn anghyson ar draws Cymru. Er mwyn mynd i'r afael â'r bwch cyrhaeddiad, byddai angen newid diwylliant mawr mewn agweddau ac ymrwymiad.

56. Roedd llawer o sefydliadau o'r farn bod gwrthdaro posibl yn deillio o'r diffyg aliniad â pholisïau i gefnogi lles disgyblion, a oedd yn creu sefyllfa lle roedd blaenoriaethau croes mewn ysgolion, a gallent fod yn ansicr ynghylch lle y dylai eu pwyslais fod.

57. Pwysleisiodd Estyn pa mor bwysig yw ymagweddau ataliol wrth godi safonau a lles dysgwyr o dan anfantais. Cyfeiriodd eraill hefyd at effaith bosibl y rhaglenni blynyddoedd cynnar fel y Cyfnod Sylfaen. Tynnodd tystiolaeth arall sylw at ba mor bwysig yw rhaglenni o fewn portffolios Gweinidogion eraill, fel Dechrau'n Deg, Cymunedau'n Gyntaf a Teuluoedd yn Gyntaf. Y farn oedd y gallai'r rhain hefyd chwarae rhan hanfodol. Fodd bynnag, tynnodd rhai ymatebwyr sylw at yr hyn roeddynt yn deimlo oedd yn gyfyngiadau mentrau ar sail maes arbennig, fel Dechrau'n Deg, gan awgrymu y dylid cadw eu cyfyngiadau mewn cof yng nghyd-destun llunio polisiau sydd wedi'u hanelu at wella canlyniadau disgyblion o gartrefi incwm isel.

58. Cyfeiriodd cyfranwyr i'r ymchwiliad hefyd at bwysigrwydd y cwricwlwm mewn perthynas â chyrhaeddiad disgyblion. Awgrymodd Estyn fod yr adolygiad Donaldson o'r cwricwlwm yn gyfle i gryfhau ac adeiladu capasiti o ran canlyniadau plant o gartrefi incwm isel. Dywedodd Sefydliad Bevan fod sylwadau wedi cael eu gwneud yn aml yn ystod ei waith am rôl y cwricwlwm o ran ei briodoldeb i blant o gartrefi incwm isel yn ogystal â'i botensial o ran rhoi sgiliau bywyd i blant o'r fath.

59. Thema arall a ddaeth i'r amlwg yn ystod yr ymchwiliad oedd canlyniadau addysgol sy'n ymwneud â grwpiau penodol o blant a phobl ifanc sy'n fwy tebygol o brofi tlodi, er enghraifft, plant Sipsiwn a Theithwyr; plant anabl; plant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu; plant o leiafrifoedd ethnig; a disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Awgrymwyd y gallai asesu ac yna teilwra cymorth i ddiwallu anghenion penodol grwpiau fel hyn o blant gael effaith ar ganlyniadau addysgol cyffredinol plant o gartrefi incwm isel. Awgrymwyd hefyd y gallai polisiau sy'n canolbwyntio ar anghenion grwpiau penodol hefyd oresgyn diffygion canfyddedig mentrau ar sail maes arbennig.

Targedau Llywodraeth Cymru

60. Mae cynllun Llywodraeth Cymru, Creu Cymunedau Cryf: Symud Ymlaen â'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi, a gyhoeddwyd ym mis

Gorffennaf 2013 yn cynnwys dau darged: un ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a'r llall yng Nghyfnod Allweddol 4.

Targed y Cyfnod Sylfaen

61. Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen yn mesur canran y disgyblion sy'n cyflawni'r canlyniadau disgwylidig mewn asesiadau athrawon:

Targed: Lleihau'r bwlch rhwng lefelau cyrhaeddiad dysgwyr 7 oed sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy'n cyrraedd y lefelau disgwylidig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, fel y caiff ei fesur gan Ddangosydd y Cyfnod Sylfaen, o 10 y cant erbyn 2017. 18.3 y cant oedd y gwahaniaeth rhwng cyrhaeddiad plant sy'n cael prydau ysgol am ddim a phlant eraill yn 2012.

62. Y targed yw lleihau'r bwlch 1.83 pwynt canran dros gyfnod o 6 blynedd, sy'n 10% o'r bwlch gwreiddiol o 18.3% a gofnodwyd yn y flwyddyn 2011/2012.

63. Ymateb y Gweinidog i gwestiwn gan y Pwyllgor ynghylch a oedd yn teimlo fod y targed yn ddigon uchelgeisiol, oedd:

“I do not believe that it is and I think that target needs to be revised. The target represents 10% of the gap; that is why it is an odd figure of 1.83%. We can already be confident that that target will be breached. In the very nature of good targets, I think that we need a new one that stretches us beyond our comfort zone in terms of those young people, so I am looking at that currently.”

64. Dengys yr ystadegau diweddaraf a gyhoeddwyd mai 16.3 pwynt canran oedd y bwlch rhwng disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen a oedd yn cael prydau ysgol am ddim a disgyblion nad oeddynt yn cael prydau ysgol am ddim yn 2014, sy'n golygu fod y bwlch wedi cau 1.4 pwynt canran o'i gymharu â 2012/2013. Wrth gyfeirio at y targed, dywedodd y Gweinidog:

“While it is not possible to draw conclusions from only 2 years of data, if this rate of improvement continues the gap would have narrowed by 3 percentage points by 2017. In other words, the Foundation Phase target will have been exceeded by 1.2 percentage points.”

Targed Cyfnod Allweddol 4

Targed: Gwella lefelau cyrhaeddiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi ei fesur fel cyfran y dysgwyr 15 oed sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim sy'n cyrraedd Lefel 2 yng Nghyfnod Allweddol 4 (TGAU gradd C neu uwch mewn Cymraeg neu Saesneg a Mathemateg neu gyfatebol), i 37 y cant erbyn 2017. 23.4% oedd y canran yn 2012.

65. Mae'r targed hwn yn wahanol i Darged y Cyfnod Sylfaen gan ei fod yn mesur perfformiad y garfan o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim, yn hytrach na'r bwlch mewn cyrhaeddiad.

66. Yn 2013/14, yng Nghyfnod Allweddol 4, cyrhaeddodd 27.8 y cant o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim drothwy lefel 2 (gan gynnwys graddau A*-C TGAU mewn Cymraeg/Saesneg a Mathemateg) o'i gymharu â 61.6% o ddisgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

67. Mae perfformiad disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim wedi gwella 4.4 pwynt canran ers pennu'r targed yn 2011/12. Mae angen cynyddu perfformiad disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim 9.2 pwynt canran eto dros y tair blynedd nesaf i gyrraedd targed Llywodraeth Cymru.

68. Yn ei bapur, dywedodd y Gweinidog:

“Given this accelerating rate of improvement, supported by the impact of the PDG, strengthened guidance, resource materials and the range of other measures we have implemented or are developing means that we are on track to meet the target for Key Stage 4.”

Materion

69. Er bod cynnydd wedi digwydd, dywedodd yr ymatebwyr wrth y Pwyllgor fod angen gwneud mwy er mwyn cyflawni maint y newid sydd ei angen i gyrraedd y targedau.

70. Roedd Sefydliad Bevan yn cwestiynu a fyddai gan y mathau cyfredol o ymyriadau ddigon o effaith i gyflawni'r graddfeydd hynny o newid. Pwysleisiodd hefyd pa mor bwysig yw cael cynllun i gyrraedd y targedau.

71. Mater arall a godwyd gan y tystion oedd bod ymyriadau yn y maes polisi hwn, yn gyffredinol, wedi cael effaith ar gyrhaeddiad *pob* plentyn, yn hytrach na charfan benodol. Roedd yn achos o'r "llanw sy'n codi yn codi pob llong"

ac, o ganlyniad, roedd yn anodd canfod ymyriadau i gau'r bwlch cyrhaeddiad.

Tystiolaeth y Gweinidog

72. Mewn perthynas â'r effaith y mae polisïau Llywodraeth Cymru yn ei chael yn y maes hwn, cyfeiriodd y Gweinidog at yr adolygiad o flwyddyn gyntaf y Grant Amddifadedd Disgyblion, a dywedodd:

“One of the most interesting phrases—I might be paraphrasing a little—within the report is that we are seeing a culture change starting to crystallise within the school system and, of course, there is considerable overlap with other programmes like Communities First and, indeed, the transition between Flying Start and the foundation phase in terms of the working of schools.”

73. Aeth y Gweinidog ymlaen i ddweud:

“This is a very broad, complex agenda, but I think that we are starting to see early signs of the gap beginning to close and, in fact, if you take a look at the core subject indicators for key stage 2, key stage 3 and the latest GCSE results at key stage 4, we are beginning, I think, to see the beginnings of a glimmer of a start of a shift in terms of that gap closing down. I accept that this is going to need relentless pressure, and endless vigilance as well, in terms of making sure that that momentum is maintained.”

74. Wrth gyfeirio at effaith y Cyfnod Sylfaen, dywedodd y Gweinidog ei fod yn teimlo y gellid gwneud gwelliannau o ran cysondeb darpariaeth y Cyfnod Sylfaen a'r ddarpariaeth datblygiad proffesiynol, ond pwysleisiodd nad prif ddiben y rhaglen oedd bod yn ddarn o beirianwaith a gynlluniwyd, ynddi'i hun, a dweud y gwir, i fod o fudd i'r grŵp penodol hwnnw o bobl ifanc [*sef pobl o gartrefi incwm isel*].

Safbwynt y Pwyllgor

75. Mae Llywodraeth Cymru yn wynebu heriau sylweddol o ran cau'r bwlch cyrhaeddiad ar gyfer plant o deuluoedd incwm isel. Mae nifer o raglenni a mentrau wedi cael eu cyflwyno dros y blynyddoedd diwethaf, a nid oes yr un ohonynt wedi dangos llwyddiant sylweddol o ran cau'r bwlch cyrhaeddiad.

76. Roedd canfyddiadau Comisiwn Symudedd Cymdeithasol a Thlodi Plant y DU, bod angen newid ar frys, yn bryder i'r Pwyllgor. Mae'r ffaith bod cyrhaeddiad plant Cymru sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yng

Nghymru yn is na'r rhan fwyaf o ardaloedd Lloegr yn dangos yr heriau y mae'r Gweinidog yn eu hwynebu.

77. Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i'r mater hwn a'i fod wedi nodi ei fod yn flaenoriaeth ar gyfer ei adran. Er bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud ar draws y cyfnodau allweddol yn y blynyddoedd diwethaf, ni ddylid diystyru maint y newid sydd ei angen i ateb yr her hon.

78. Er bod polisïau wedi'u hanelu at wella lefelau cyrhaeddiad yn gyffredinol yn cael eu croesawu, maent yn arwain at yr effaith bod "llanw sy'n codi yn codi pob llong". Ni fydd hyn yn arwain at gau'r bwlch cyrhaeddiad. Mae angen polisïau sydd wedi'u targedu'n benodol at godi cyrhaeddiad disgyblion o deuluoedd incwm isel.

79. Fel mater o flaenoriaeth, rhaid i Lywodraeth Cymru gadw llygad barcud ar ganfod a yw ei mentrau cyllido a pholisi sydd â'r nod o gau'r bwlch yn cyflawni'r canlyniadau a fwriedir ar gyfer disgyblion, ynghyd â gwerth am arian. Dylai hefyd ymateb yn gyflym os oes tystiolaeth mai bach iawn yw'r effaith.

80. Dylai Llywodraeth Cymru barhau â'i hymdrechion i sicrhau bod ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn meddu ar ddealltwriaeth a rennir o ran graddfa'r newid a ddisgwylir.

Effaith y Cyfnod Sylfaen

81. Rydym yn nodi bod yr arfarniad o'r Cyfnod Sylfaen wedi canfod nad yw wedi cael effaith ar lefelau cyrhaeddiad plant o deuluoedd incwm isel. Dywedodd y Gweinidog nad prif ddiben y Cyfnod Sylfaen oedd mynd i'r afael â'r bwlch mewn cyrhaeddiad.

82. Fodd bynnag, o gofio mai un o nodweddion pwysig y Cyfnod Sylfaen oedd lleihau anghydraddoldebau mewn canlyniadau cymdeithasol ac addysgol, byddem yn disgwyl iddo wneud rhywfaint o gyfraniad tuag at gau'r bwlch hwnnw. Rhaid i Lywodraeth Cymru ddatblygu dealltwriaeth o'r rhesymau dros y diffyg effaith a cheisio mynd i'r afael â hwy, er mwyn sicrhau bod potensial llawn y rhaglen yn cael ei wireddu.

83. Caiff ymrwymiad y Gweinidog i adolygu targed y Cyfnod Sylfaen ei groesawu. Credwn fod angen i'r targed hwn fod yn fwy heriol.

Targedau

84. Bu rhywfaint o gynnydd yn y blynyddoedd diwethaf, ond, mae'n amlwg o ystadegau Llywodraeth Cymru ei hun nad yw cyflymder y newid yn ddigonol i gwrdd â'i dyheadau ym mhob cyfnod allweddol.

85. Er bod y bwlch yn llai ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, dengys yr ystadegau diweddaraf fod y bwlch yng nghyfnod allweddol 4 wedi agor am y tro cyntaf ers 2010. Mae perfformiad disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim wedi gwella 4.4 pwynt canran ers pennu'r targed yn 2011/12 ac mae angen i'w perfformiad gynyddu 9.2 pwynt canran eto dros y tair blynedd nesaf i gyrraedd targed Llywodraeth Cymru.

86. Nodwn y farn a fynegwyd gan dystion fod angen cael cynllun clir ar gyfer sut y gellir cyrraedd y targedau hyn yn ymarferol. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod nifer o bolisiâu uchelgeisiol a llawn bwriadau da ar waith, ond heb unrhyw eglurder na chefnogaeth unffurf ar gyfer eu cyflawni. Nodwn bod Llywodraeth Cymru, ers dechrau ein hymchwiliad, wedi cyhoeddi ei Chynllun Amddifadedd Cenedlaethol: Ailysgrifennu'r dyfodol.

87. Er y bu rhywfaint o gynnydd tuag at gyrraedd targedau, mae'r Pwyllgor yn pryderu nad yw cyflymder y newid yn ddigonol i fodloni dyheadau datganedig Llywodraeth Cymru. Mae angen i dargedau Llywodraeth Cymru fod yn ymestyn, ond ni ddylent fod mor anodd i'w cyrraedd fel na ellir eu cyflawni. Bydd y Pwyllgor hefyd yn parhau i adolygu cynnydd yn rheolaidd.

Pecyn Cymorth Ymddiriedolaeth Sutton

88. Roedd y Pwyllgor yn pryderu am y dystiolaeth yn ymwneud â lefelau isel o'r defnydd o Becyn Cymorth Ymddiriedolaeth Sutton. Er bod y Pwyllgor yn derbyn nad oes barn gyffredinol gyson ar p'un a yw'r pecyn cymorth yn cynnwys yr holl ddulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth a allai fod yn berthnasol yng Nghymru, mae'n amlwg bod dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn hanfodol wrth gyflwyno gwelliannau. Dylai ysgolion fod yn gallu dangos sut mae'r dull a ffefrir ganddynt yn seiliedig ar dystiolaeth.

Argymhellion

Dylai'r Gweinidog adolygu ac egluro rôl y Cyfnod Sylfaen er mwyn sicrhau y gall gyfrannu at well canlyniadau i blant o deuluoedd incwm isel.

Dylai'r Gweinidog ddiwygio'r targed ar gyfer disgyblion 7 oed (y dangosydd Cyfnod Sylfaen) i'w wneud yn fwy heriol, er mwyn cyflawni dyheadau Llywodraeth Cymru.

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, fel Pecyn Cymorth Ymddiriedolaeth Sutton, yn cael eu defnyddio bob amser.

3. Grant Amddifadedd Disgyblion

89. Dyrannodd Llywodraeth Cymru £82.046 miliwn yn ei chyllideb 2015-16 ar gyfer y rhaglen Grant Amddifadedd Disgyblion. Yn ystod gwaith craffu'r Pwyllgor ar y gyllideb ddrafft ar 23 Hydref 2014, esboniodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau sut roedd y dyraniadau cyllid yn adlewyrchu ei flaenoriaethau:

“I am very pleased to see that there is a very clear prioritisation emerging through my budget—I think that it is self-evident—in terms of the commitment to the pupil deprivation grant, which is a considerable, if not historic, commitment and tribute to the political will to break that link between under-attainment and the deprivation figures.”

90. Mae'r dyraniad yn golygu £10.8 miliwn yn ychwanegol yn 2015-16, o'i gymharu â llinell sylfaen 2014-15. Bwriad hyn yw ariannu cynnydd o £918 i £1,050 yn y swm a gaiff pob ysgol ar gyfer pob disgybl sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Bydd y swm yn cynyddu ymhellach i £1,150 yn 2016-17.

Ymestyn y Grant Amddifadedd Disgyblion i blant 3 a 4 oed

91. Fel rhan o Gytundeb Cyllideb Llywodraeth Cymru gyda Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, roedd cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16 yn cynnwys £3.8 miliwn i ymestyn y rhaglen Grant Amddifadedd Disgyblion i blant o dan 5 oed. Rhoddodd y Gweinidog fanylion pellach mewn [llythyr](#) i'r Pwyllgor, lle dywedodd fod y dyraniad yn seiliedig ar swm o £300 ar gyfer pob disgybl sy'n bodloni'r meini prawf prydau ysgol am ddim mewn lleoliadau addysgol a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir, gan gynnwys disgyblion dosbarth meithrin a disgyblion dosbarth derbyn, ond nid plant sydd gyda gwarchodwyr plant. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod gwaith ar y gweill i ddatblygu methodoleg dosbarthu addas a ffordd i awdurdodau lleol sefydlu cymhwysedd.

Gwerthusiad o'r Grant Amddifadedd Disgyblion: Adroddiad Blwyddyn 1

92. Ar 22 Hydref 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Adroddiad Blwyddyn 1 o'r gwerthusiad o'r Grant Amddifadedd Disgyblion, y comisiynwyd Ipsos MORI a WISERD (ym Mhrifysgol Caerdydd) i'w gynnal. Awgrymodd tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog fod y canfyddiadau, ar y cyfan, yn gadarnhaol tra'n cydnabod bod angen gwaith mewn rhai meysydd.

93. Canolbwyntiodd Adroddiad Blwyddyn 1 yn fwy ar y broses o weithredu'r Grant Amddifadedd Disgyblion, yn hytrach na'i effaith, ac a gaiff eu hystyried yn ystod camau diweddarach y gwerthusiad. Rhai o'i ganfyddiadau allweddol oedd:

- Roedd cyflwyno'r Grant Amddifadedd Disgyblion wedi arwain at swm sylweddol o weithgarwch newydd mewn ysgolion a oedd yn anelu at gefnogi disgyblion sydd o dan anfantais. Nid oedd dros hanner yr ymyriadau a ariennir ar hyn o bryd gan ddefnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion (58% mewn ysgolion cynradd, 71% mewn ysgolion uwchradd) yn cael eu cynnal mewn ysgolion cyn i'r Grant gael ei gyflwyno;
- Er mai ychydig iawn o arian yr ysgolion y mae'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn ei wario (llai na 4% ar gyfartaledd), mae'r symiau sydd ar gael i ysgolion unigol yn sylweddol. Derbyniodd ysgolion cynradd gyfartaledd o £12,676 yn 2012-13 tra bod ysgolion uwchradd wedi derbyn cyfartaledd o £61,311;
- Dywedodd y mwyafrif helaeth o ysgolion (tua 90%) eu bod yn ychwanegu at arian y Grant Amddifadedd Disgyblion o'u hadnoddau eu hunain, fel arfer cyllideb gyffredinol yr ysgol a / neu'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion, i ariannu 'gweithgareddau Grant Amddifadedd Disgyblion'. Mae'r adroddiad yn datgan ei bod yn glir bod effaith y Grant Amddifadedd Disgyblion yn dibynnu ar fodolaeth grantiau a chronfeydd eraill sydd ag amcanion cyflenwol;
- Mae rhywfaint o amwysedd o hyd ynghylch sut y dylai'r Grant Amddifadedd Disgyblion gael ei dargedu. Mae ysgolion fel arfer yn defnyddio diffiniad ehangach o anfantais na dim ond prydau ysgol am ddim, gan olygu bod gweithgareddau'r Grant Amddifadedd Ysgolion yn cael eu hymestyn i nifer fawr o ddisgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim a phlant nad ydynt yn derbyn gofal. Y rheswm a awgrymwyd, ar sail tystiolaeth o astudiaeth achos, oedd bod ysgolion weithiau yn ystyried gweithgareddau yr hoffent eu hariannu drwy'r Grant Amddifadedd Disgyblion fel gweithgareddau sydd o fudd i ddisgyblion yn fwy cyffredinol;
- Dim ond 60% o ddisgyblion sy'n elwa o'r Grant Amddifadedd Disgyblion mewn ysgolion cynradd oedd yn ddisgyblion cymwys i gael prydau ysgol am ddim neu'n blant a oedd yn derbyn gofal. Mae'r un peth yn wir am 72% o ddisgyblion sy'n elwa mewn ysgolion uwchradd. Fodd bynnag, mae'r mwyafrif helaeth o ysgolion yn defnyddio eu hadnoddau eu hunain i ategu gweithgareddau Grant Amddifadedd

Disgyblion, sy'n golygu nad oeddent, o reidrwydd yn gwario'r arian Grant Amddifadedd Disgyblion eu hunain at ddibenion heblaw'r rhai a fwriadwyd (ar blant nad oeddynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu ar blant nad oeddynt yn derbyn gofal). Dadleuodd yr adroddiad gwerthuso y byddai hyn yn gymhleth i'w ddatrys, er bod papur y Gweinidog yn tynnu sylw at y ffaith bod bron i hanner y cyllid ar gyfer gweithgareddau Grant Amddifadedd Disgyblion ar draws yr holl ysgolion a arolygwyd yn 2012/13, yn dod o gyllidebau nad ydynt yn Grantiau Amddifadedd Disgyblion;

- Roedd ysgolion yn targedu gweithgareddau Grantiau Amddifadedd Disgyblion yn fras gan eu bod yn dehongli'r Grantiau fel rhai i fynd i'r afael ag anfantais yn hytrach na dim ond amddifadedd ariannol, ac am eu bod yn dehongli'r Grantiau fel rhai ar gyfer gwella cyrhaeddiad ymhlith y rhai sydd â chyrhaeddiad isel ar hyn o bryd;
- Mewn ysgolion cynradd, defnyddiwyd cyllid Grantiau Amddifadedd Disgyblion yn aml i ariannu rhaglenni llythrennedd (37% o achosion) a rhifedd (25% o achosion), ond yn llai felly mewn ysgolion uwchradd lle roedd dim ond 17% o ymyriadau yn seiliedig ar lythrennedd ac 16% yn seiliedig ar rifedd. Ar lefel uwchradd, roedd mwy o ddefnydd o ymyriadau wedi'u hanelu at faterion bugeiliol;
- Roedd llai na hanner yr ysgolion (36% cynradd, 49% uwchradd) yn cydnabod eu bod yn defnyddio Pecyn Cymorth Ymddiriedolaeth Sutton, er iddo gael ei gymeradwyo o fewn Canllawiau Llywodraeth Cymru ar ddefnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion;
- Ychydig iawn o dystiolaeth a gafwyd fod ysgolion yn mynd ati i ddefnyddio cyllid Grant Amddifadedd Disgyblion i feithrin cysylltiadau gyda'r gymuned leol neu ymgysylltu â rhieni;
- Roedd y rhan fwyaf o athrawon a holwyd o'r farn bod ymyriadau'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn cael effaith gadarnhaol ar ddisgyblion. Roeddent yn fwy cadarnhaol am yr effaith ar ganlyniadau fel ymgysylltiad a lles disgyblion, yn hytrach nag ar ganlyniadau fel cyrhaeddiad a phresenoldeb;
- Er bod y bwloch cyrhaeddiad wedi cau (rhwng disgyblion a gaiff brydau ysgol am ddim a disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim) mewn rhai mesurau cyrhaeddiad yng Nghyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 4, roedd y gwelliant hwn wedi digwydd cyn y Grant Amddifadedd Disgyblion a nid oedd y gwelliant ymhlith disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi newid ers ei

gyflwyno. Fodd bynnag, roedd yr adroddiad gwerthuso yn cydnabod ei bod yn rhy gynnar i lunio barn ar yr effaith ar gyrhaeddiad.

Monitro'r defnydd o arian Grant Amddifadedd Disgyblion

94. Mae Llywodraeth Cymru wedi ei gwneud yn glir mai dim ond ar gyfer dibenion a nodwyd y dylai arian y Grant Amddifadedd Disgyblion gael ei ddefnyddio: gwella cyrhaeddiad ar gyfer plant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a phlant sy'n derbyn gofal. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi y gall arian Grant Amddifadedd Disgyblion gael ei ddefnyddio ar gyfer mentrau ysgol-gyfan a fydd o fudd arbennig i ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a phlant sy'n derbyn gofal.

95. Yn ei [Chanllaw Byr i Ymarferwyr](#) (Rhagfyr 2013), cyfeirir at y rhaglen Rhagori a'i chanlyniadau:

"Ni ddylid defnyddio'r cyllid i fynd i'r afael â thangyflawni ar draws yr ysgol. Mae'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion yn darparu cymorth i wella tangyflawniad yn gyffredinol, gan ganolbwyntio'n benodol ar lythrennedd a rhifedd. Ni wnaeth grant Rhagori gyrraedd ei amcan i leihau'r gwahaniaeth mewn cyrhaeddiad rhwng dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'u cyfoedion gan fod nifer o ysgolion yn canolbwyntio ar dangyflawniad, yn hytrach na mynd i'r afael ag effaith tlogi ar gyrhaeddiad addysgol."

Materion

96. Codwyd nifer o faterion yn ystod ymchwiliad y Pwyllgor mewn perthynas â'r Grant Amddifadedd Disgyblion. Codwyd pryderon gan ymatebwyr ei fod yn cael ei weld fel estyniad o gynlluniau cyllido arferol. Ar ben hynny, dywedwyd wrth y Pwyllgor bod enghreifftiau o ddefnyddio'r Grant i ariannu 'prosiectau' generig, gyda'r nod o godi cyrhaeddiad cyffredinol, yn hytrach na chyrhaeddiad plant o gartrefi incwm isel yn benodol. Roedd y Grant hefyd yn cael ei weld yn aml fel ffordd o lenwi tyllau mewn cyllidebau ysgolion.

Tystiolaeth y Gweinidog

97. Pwysleisiodd y Gweinidog pa mor bwysig yw ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ond roedd yn cydnabod nad oedd nifer o ysgolion yn defnyddio Pecyn Cymorth Ymddiriedolaeth Sutton. Siaradodd am gymhlethdod anghenion y plant ac, o ganlyniad, yr angen am amrywiaeth o ymyriadau i'w cynorthwyo. Dywedodd y gallai ysgolion ddefnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion mewn ffyrdd dychmygus, ond pwysleisiodd y dylai arian Grant

Amddifadedd Disgyblion gael ei ddefnyddio i ariannu ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth:

“In terms of the evidence base that we are suggesting that schools use carefully when they implement PDG interventions, there is a raft of evidence there going back donkeys’ years through Estyn and through the Sutton Trust and all the rest of it. [...] the evidence keeps on saying the same things: excellence in teaching and learning; give children good feedback; use your data very carefully within the school and keep on top of it; develop your professionals—keep your professionals training and updating their skills. Those lessons are repeated ad infinitum by school inspectorates and by the academics as well.”

98. O ran defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion, dywedodd y Gweinidog:

“I have tightened up the guidance around that. I have asked consortia to take a very close and sceptical view of exactly what the PDG is being spent on, and, of course, we will also move now to requiring schools to publish on their website—or if they do not have a website, on the consortium website—exactly what they are spending the money on. We are refreshing the guidance around all of this as I speak. So, this is, in part, in response to that.”

99. Sicrhaodd y Gweinidog y Pwyllgor fod defnydd ysgolion o gyllid Grant Amddifadedd Disgyblion yn cael ei fonitro'n drylwyr ac y byddai, os bydd angen, yn ceisio adennill unrhyw arian a ganfyddir ei fod wedi cael ei wario'n amhriodol.

100. Mewn perthynas â newidiadau i drefniadau arolygu, dywedodd y Gweinidog:

“The new school categorisation system will take a specific look at how children on free school meals are doing within every school. The top ‘green’ category will be inaccessible to schools that are not doing right by that group of children. Estyn, as I said, has a renewed role in terms of asking questions around the attainment and provision for children of free school meals, and the consortia also have a specific ask in terms of making sure that the PDG is spent wisely and well.”

Safbwynt y Pwyllgor

101. Mae'r Pwyllgor yn croesawu rhai o'r agweddau cadarnhaol sy'n deillio o'r Grant Amddifadedd Disgyblion, fel yr amlinellir yn adroddiad gwerthuso Llywodraeth Cymru o Flwyddyn 1 y rhaglen. Fodd bynnag, mae nifer o feysydd sy'n peri pryder, gan gynnwys a yw'r defnydd o'r grant yn cael ei dargedu at blant o gefndiroedd difreintiedig (yn hytrach na disgyblion sy'n tangyflawni yn gyffredinol) a bod y buddsoddiad hwn yn y tymor hwy yn dangos gwell canlyniadau ar gyfer disgyblion. Rydym yn nodi, er enghraifft, mai dim ond 60% o blant mewn ysgolion cynradd a 72% o blant mewn ysgolion uwchradd wnaeth elwa o'r Grant Amddifadedd Disgyblion a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu a oedd yn blant sy'n derbyn gofal.

102. Mae adroddiad gwerthuso Blwyddyn 1 yn cydnabod ei bod yn rhy gynnar yn y broses i asesu effaith y Grant Amddifadedd Disgyblion yn iawn. Yn ein barn ni, mae'n anodd, felly, i Lywodraeth Cymru benderfynu ar hyn o bryd a yw'r rhaglen yn sicrhau gwerth am arian. Bydd y Pwyllgor yn cymryd diddordeb parhaus yn hyn o ystyried y symiau sylweddol sydd ar gael i ysgolion unigol. Nid ydym am weld Llywodraeth Cymru yn ailgreu sefyllfa lle nad yw buddsoddiad yn cael effaith ganfyddadwy ar gyfer y grŵp targed o ddisgyblion, fel yr hyn a ddigwyddodd gyda'r grant blaenorol yn 2006 (Rhagori), a oedd â nodau tebyg.

103. Ymddengys nad yw bob ysgol yn glir ynghylch yr angen i ddefnyddio ymyriadau sydd wedi'u profi i fod yn effeithiol o ran gwella canlyniadau i ddisgyblion o gartrefi incwm isel. Mae'r ffaith bod llai na hanner yr ysgolion yn defnyddio Pecyn Cymorth Ymddiriedolaeth Sutton, er gwaethaf pwyslais Llywodraeth Cymru ar ei ddefnydd, yn awgrymu diffyg dealltwriaeth bod yn rhaid i ymyriadau a ariannwyd gan y Grant Amddifadedd Disgyblion fod yn seiliedig ar dystiolaeth y byddant yn sicrhau newid mewn canlyniadau disgyblion.

104. Rydym yn cytuno â sylwadau'r Gweinidog fod anghenion plant yn gymhleth a bod angen amrywiaeth o ymyriadau i ymateb i hynny. Dylid caniatáu i ysgolion ymateb i anghenion penodol eu plant mewn ffyrdd dychmygus. Fodd bynnag, dylai unrhyw ddulliau o'r fath fod yn seiliedig ar dystiolaeth.

105. Rhaid bod cynnydd mewn tryloywder am y gweithgareddau a'r rhaglenni y mae ysgolion yn eu cyllido drwy'r Grant Amddifadedd Disgyblion. Rydym yn pryderu y bu anghysondeb o ran i ba raddau y mae ysgolion yn cyhoeddi'r data ac i ba raddau y mae consortia rhanbarthol yn monitro a yw hyn yn cael

ei wneud. Rydym yn nodi sylwadau'r Gweinidog y bydd yn ofynnol i ysgolion gyhoeddi ar beth y mae eu Grant Amddifadedd Disgyblion yn cael ei wario, naill ai ar eu gwefannau neu ar wefan y consortiwm perthnasol. Rydym yn croesawu'r datblygiad hwn a byddwn yn gofyn am ddiweddariad ar gynnydd cyn bo hir.

106. Rhaid i Lywodraeth Cymru wneud trefniadau i fonitro effeithiolrwydd y rhaglen gyffredinol yn drylwyr, er mwyn sicrhau ei bod yn cael yr effaith angenrheidiol ac yn sicrhau gwerth am arian.

Ymestyn y Grant Amddifadedd Disgyblion

107. Noda'r Pwyllgor fod ysgolion wedi croesawu ymestyn y Grant Amddifadedd Disgyblion i blant 3 a 4 oed. Fodd bynnag, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y problemau y cyfeirir atynt uchod yn cael sylw, er mwyn gwireddu effaith fwyaf yr arian ychwanegol hwn.

108. Noda'r Pwyllgor fod cyllid o £300 wedi cael ei ddyrannu fesul pob disgybl cymwys 3 a 4 oed. Fodd bynnag, nid yw'n glir sut y penderfynwyd ar y ffigur hwn ac a fydd yn briodol, yn arbennig o gofio pwyslais datganedig Llywodraeth Cymru ar ymyriadau cynnar. Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod mentrau Llywodraeth Cymru yn cael eu hymestyn y tu hwnt i'w gylch gwaith gwreiddiol pan nad yw eu gwerth wedi'i ganfod eto. Bwriad y Pwyllgor yw parhau i adolygu hyn, a bydd yn ceisio cael sicrwydd gan Lywodraeth Cymru y bydd y buddsoddiad ychwanegol hwn yn sicrhau gwahaniaeth mesuradwy mewn canlyniadau i blant o gartrefi incwm isel.

Argymhellion

Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor cyn gynted ag y bo modd ar y cynnydd tuag at fodloni gofynion Llywodraeth Cymru ei bod yn ofynnol i ysgolion gyhoeddi manylion o ran eu defnydd o'r Grant Amddifadedd Disgyblion ar eu gwefan eu hunain (neu ar wefan y consortiwm perthnasol).

Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu tystiolaeth i'r Pwyllgor yn ymwneud â'r penderfyniad am faint o gyllid a fyddir fesul disgybl ar gyfer plant 3 a 4 oed.

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y Grant Amddifadedd Disgyblion yn sicrhau'r canlyniadau a fwriadwyd ar gyfer disgyblion ac yn sicrhau gwerth am arian. Dylai ymateb yn gyflym os oes tystiolaeth mai bach iawn yw'r effaith.

4. Her Ysgolion Cymru

109. Cafodd rhaglen Llywodraeth Cymru, Her Ysgolion Cymru ei lansio yn yr ysgolion ym mis Medi 2014, gyda'r nod o wella perfformiad 40 o ysgolion uwchradd Cymru sy'n tanberfformio.

110. Mae'r model yn seiliedig ar y London Challenge 2003-08 a'r City Challenge 2008-2011, a oedd yn cynnwys Llundain, Manceinion Fwyaf a'r Ardal Ddu. Roedd rhai o'r canfyddiadau allweddol o adroddiad gwerthuso'r rhaglen hon yn cynnwys y canlynol:

- Roedd y gostyngiad yn y nifer o ysgolion islaw'r targed yn fwy mewn ardaloedd City Challenge na mewn mannau eraill, ac roedd canran y disgyblion cynradd ac uwchradd a oedd yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig hefyd yn gwella'n fwy nag mewn mannau eraill;
- Cynyddodd cyrhaeddiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim fwy na'r ffigur cenedlaethol ym mhob ardal (ac eithrio disgyblion cynradd ym Manceinion Fwyaf);
- Roedd y bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi culhau ar gyfer disgyblion cynradd a disgyblion uwchradd Llundain, a disgyblion cynradd Manceinion Fwyaf; a
- Cynyddodd y gyfran o ysgolion 'Da' a 'Rhagorol' a arolygwyd gan Ofsted ym mhob un o'r tair ardal. Yn Llundain a Manceinion gostyngodd y ganran o ysgolion 'annigonol', ac yn yr Ardal Ddu, cynyddodd yn y ddau sector.

111. Roedd canfyddiadau prifathrawon o effaith y City Challenge yn gymysg. Roedd llai na hanner y penaethiaid ym Manceinion yn cytuno ag amrywiaeth o ddatganiadau a oedd yn priodoli effeithiau cadarnhaol yn eu hysgol i'r City Challenge.

Meini prawf ar gyfer dewis yr ysgolion

112. Cafodd y 40 o ysgolion 'Llwybrau Llwyddiant' sy'n cymryd rhan yn rhaglen Llywodraeth Cymru, Her Ysgolion Cymru, eu cyhoeddi gan y Gweinidog ym mis Mai 2014. Dywedodd y datganiad a gyhoeddwyd ar y cyd:

"Dewiswyd yr ysgolion ar sail amrywiaeth o ddata am berfformiad a hefyd wybodaeth am yr heriau y maent yn eu hwynebu o ran eu hamgylchiadau a'u datblygiad. Hefyd cawsant eu dewis oherwydd ein

cred bod ganddynt y potensial i wella'n gyflym gan sicrhau canlyniadau positif i'w dysgwyr."

Cyllid

113. Dyrannodd Llywodraeth Cymru £20 miliwn o gyllid i'r rhaglen dros dair blynedd, a oedd yn cynnwys swm o £12.1 miliwn o gyllid canlyniadol Barnett o Ddatganiad yr Hydref 2013 a £7.9 miliwn o gyllidebau Addysg a Sgiliau sy'n bodoli eisoes. Mewn cysylltiad â lle y byddai'r cyllid ychwanegol hwn ar gael, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor:

"In respect of the remaining £7.9million, we are currently looking at how our portfolio could be used to support delivery of the programme, alongside managing competing in-year priorities and implementing in-year reductions."

114. Caiff y cyllid o £20 miliwn a ddyrannwyd ar gyfer y cynllun ei ddyrannu yn ôl y gwaith datblygu a gwella sydd ei angen ar gyfer pob ysgol Llwybrau Llwyddiant. Mae gwefan Consortiwm Canolbarth y De yn amlinellu sut y bydd cyllid yn cael ei ddyrannu i ysgolion:

"Pathways to Success schools will be supported by their Schools Challenge Cymru Adviser in drafting a Single School Development Plan – a comprehensive map of the next stage of the school's improvement journey, with stretching targets for success. The plan will identify and cost improvement activity above and beyond actions that would already be in place via for example PDG and SEG plans. [...]Funding will be released to support agreed improvement activity. Some funding will be for 'in kind' support – e.g. school to school, peer to peer; some will support other improvement activity. The mechanism for this will be agreed and in place by September 2014."

Tystiolaeth y Gweinidog

115. Mewn cysylltiad â mesur llwyddiant y cynllun, dywedodd papur y Gweinidog:

"Given the Challenge's focus on breaking the link between deprivation and attainment, its overall success will be measured in how effectively attainment is raised by pupils eligible for Free School Meals – most obviously measured by the Level 2 attainment of pupils eligible for Free School Meals, alongside L2 attainment for all pupils.

This is in addition to the Pathways to Success Schools' own success measures.”

116. Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch y cyllid sydd ar gael ar gyfer Her Ysgolion Cymru, ac a oedd yn ddigonol i gyflawni'r effaith sydd ei angen, esboniodd y Gweinidog:

“The intention of the resource is not to drive the programme—you cannot drive this sort of programme, even if you allocated the entire £20 million to a single school. You cannot drive this sort of school improvement by spending your way out of it or through it. The people involved have to change what they are doing in order to deliver on the Schools Challenge.”

117. Tynnodd y Gweinidog sylw at ddatblygiad proffesiynol fel enghraifft o'r mathau o weithgareddau y gallai ysgolion ddefnyddio'r cyllid ar ei gyfer. Dywedodd hefyd:

“There is a small element connected to capital, so if a school felt that its science labs were in such a terrible state that it was having a morale-diminishing effect on that department and then that was communicated to the children, we would take a look at that school's request to spend some capital to tidy up that situation. However, the amount of money is only about oiling the wheels of the programme; it is not an amount of money that can retrain an entire staff body and refurbish the school—it is not of that degree.”

118. Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch y dull y byddai cyfanswm y cyllid yn cael ei ddyrannu rhwng yr ysgolion a ddewiswyd, dywedodd y Gweinidog:

“The consortia do have a role to play here in terms of oversight and in terms of providing their expert guidance and so on, so there is a regional element to the spend, but, as I have said, in terms of the allocation going to the school, it is intended to be bespoke and is a matter of negotiation between the head and the chair of governors at that school and the adviser. There are schools that have made modest bids—because the money is not the central thing in the programme; as I have said, it is changes in ways of working that really are at the centre of things—and there are schools that have made more ambitious bids in terms of allocation of money. So, there will not be a set allocation.”

119. Soniodd y Gweinidog hefyd am y "Cynnig Disgyblion", a gafodd ei ddisgrifio ganddo fel:

"[...] something that we are developing in the context of our Schools Challenge Cymru programme: an innovative and exciting initiative that will inject resources, alongside proven expertise, to deliver a package of tailored support to meet the needs of 40 of our most challenged secondary schools and their cluster primaries."

120. Eglurodd y Gweinidog y byddai'r "Cynnig Disgyblion" yn cael ei wreiddio fel nodwedd ganolog o raglen Her Ysgolion Cymru yn ystod y flwyddyn ganlynol.

Safbwynt y Pwyllgor

121. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y rhaglen hon yn newydd iawn ac mae ganddo feddwl agored o ran ai dyma'r agwedd gywir ac a all gyflawni gwelliannau ar y raddfa sydd ei hangen. Er bod rhaglenni tebyg wedi cael rhywfaint o lwyddiant, yn enwedig Her Llundain, roedd canfyddiadau'r gwerthusiad o City Challenge yn fwy cymysg.

122. Noda'r Pwyllgor yr adborth gan benaethiaid ysgolion ym Manceinion yn benodol, lle roedd llai na hanner yn priodoli'r effeithiau yn eu hysgol i'r Her. Ar ben hynny, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod y City Challenge wedi methu yn yr Ardal Ddu, lle mae cyfran yr ysgolion a ystyrir i fod yn "annigonol" gan Ofsted wedi cynyddu.

123. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y gwersi o raglenni Her blaenorol yn cael eu dysgu. Ar ben hynny, dylai'r elfennau y gellir eu cysylltu â chanlyniadau llwyddiannus, yn hytrach na'r model yn ei gyfanrwydd, gael eu datblygu yng Nghymru. Mae'n rhaid nodi ymyriadau effeithiol a rhannu arferion gorau yn effeithiol er mwyn manteisio'n llawn ar effaith y rhaglen. Dylai Llywodraeth Cymru nodi unrhyw ffactorau y tu allan i'r Her a allai fod wedi cyfrannu at lwyddiant, a cheisio sicrhau y caiff y ffactorau hynny eu rhoi ar waith hefyd.

Cyllid

124. Mae gan y Pwyllgor nifer o bryderon o ran y trefniadau cyllido ar gyfer yr Her.

125. O'r £20 miliwn a ddyrannwyd i'r rhaglen, mae'n rhaid dod o hyd i £7.9 miliwn o gyllidebau addysg a sgiliau sy'n bodoli eisoes. Mae'r Pwyllgor yn

pryderu am yr effaith y gallai hyn ei chael ar raglenni neu fentrau eraill ac yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog cyn gynted â phosibl.

126. Mae'r Pwyllgor yn deall bod £3.9 miliwn o gyfanswm y gyllideb wedi cael ei ddyrannu yn uniongyrchol i'r Consortia. Mae'r Pwyllgor yn gofyn am eglurhad ar frys o ddiben y cyllid ychwanegol hwn a'r trefniadau ar gyfer monitro gwariant o gronfeydd o'r fath.

127. Noda'r Pwyllgor sylwadau'r Gweinidog y gallai cyfran o'r arian a ddyrannwyd gael ei defnyddio i ariannu prosiectau cyfalaf. Mae'r Pwyllgor yn gofyn am wybodaeth bellach am y mater hwn a'r trefniadau monitro sydd wedi cael eu rhoi ar waith i sicrhau gwerth am arian.

128. Noda'r Pwyllgor sylwadau'r Gweinidog fod gan y Consortia rôl oruchwylio mewn perthynas â chyllid. Nid oes gan y Pwyllgor unrhyw dystiolaeth i awgrymu y gall Consortia arfer swyddogaeth o'r fath yn effeithiol ar hyn o bryd. Felly, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru barhau i adolygu'r trefniadau hyn yn drylwyr.

Argymhellion

Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar frys ynghylch ariannu'r elfen £7.9 miliwn o'r gronfa Her o gyllideb addysg a sgiliau sy'n bodoli eisoes, gan gyfeirio'n benodol at y llinellau gwariant y mae dyraniadau wedi cael eu trosglwyddo ohonynt.

Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y symiau o arian a'r defnydd a wneir o gyllid sydd wedi ei ddyrannu'n benodol i'r Consortia o gronfa Her Ysgolion Cymru.

5. Cyflawni Polisi Llywodraeth Cymru

129. Yn ystod ymchwiliad y Pwyllgor, tynnwyd sylw at nifer o faterion fel rhai hanfodol ar gyfer cyflawni polisiâu a mentrau Llywodraeth Cymru a amlinellwyd eisoes yn yr adroddiad hwn, yn effeithiol.

Rôl athrawon/penaethiaid/cyrff llywodraethu/awdurdodau lleol/consortia rhanbarthol

130. Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod angen cryfhau'r canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol, consortia ac ysgolion mewn perthynas â chau'r bwloch cyrhaeddiad. Roedd gwahanol ysgolion yn rhoi gwahanol bwyslais ar y mater ac yn aml yn ansicr ynghylch yr hyn a oedd yn cael ei ystyried yn arfer gorau.

131. Pwysleisiwyd bod arweinyddiaeth yn ganolog i gyflawni polisiâu'n effeithiol "ar lawr gwlad". Roedd rolau pwysig ar gyfer consortia, llywodraethwyr ysgolion a phenaethiaid a allai, drwy eu harweinyddiaeth, hyrwyddo gwelliannau ac ymgysylltu'n effeithiol â'r gymuned. Fodd bynnag, wrth gyfeirio at rôl llywodraethwyr ysgol, dywedwyd wrth y Pwyllgor fod teimlad nad oeddynt yn cael eu grymuso ddigon i ymgymryd â'r rôl a oedd yn angenrheidiol.

132. Mae pwysigrwydd hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer athrawon a chynorthwyrwyr addysgu yn glir o'r dystiolaeth.

133. Mae'r defnydd o ddata, asesiadau ac olrhain disgyblion hefyd yn cael ei ddisgrifio fel arf pwysig i fynd i'r afael â chyrhaeddiad a monitro cynnydd. Roedd teimlad, fodd bynnag, bod diffyg prosesau clir a dadansoddiad cadarn o ddata.

134. Pwysleisiodd yr ymatebwyr werth ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ond roedd llawer yn tynnu sylw at adroddiadau nad oedd ysgolion yn defnyddio pecyn cymorth Ymddiriedolaeth Sutton.

Tystiolaeth y Gweinidog

135. Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch cynnydd y consortia, dywedodd y Gweinidog:

"I have just completed four challenging review events with each of the four consortia, and although I would accept that each one of the four is at a different stage of development, I am content, after directly cross-examining, if you like, the chief executives and chairs of each

consortium, that the consortium system is beginning to have traction. I was very struck by the comment of a north Wales headteacher, actually, who told me that GwE in north Wales had transformed his sense of being supported, in terms of the school improvement work that he was undertaking.”

136. Aeth y Gweinidog ymlaen i ddweud wrth y Pwyllgor am y gwelliannau yr oedd wedi'u cyflwyno yn ymwneud â chyfathrebu gyda phenaethiaid:

“I have put great emphasis since my appointment on improving direct communication with partners and [...] head teachers. There is now direct from my department a regular electronic newsletter, which should be keeping head teachers up to speed with all developments around what is happening in the consortium and a plethora of other issues, too.”

Ymgysylltiad rhieni

137. Yn ystod ei ymchwiliad, trafododd y Pwyllgor y mater hwn gyda:

- Rieni yn Abertawe a Wrecsam yn ystod ymweliadau anffurfiol;
- Staff a rhiant yn gysylltiedig â gwaith Cymunedau sy'n Canolbwyntio ar Ysgolion yng Nglyncoch, Rhondda Cynon Taf;
- Staff o CaST Cymru ac Ysgol Uwchradd Eirias;
- Staff o dair ysgol gynradd sydd â lefelau uwch na'r cyfartaledd a lefelau uchel iawn o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim: Ysgol Gynradd Blaenymaes (Abertawe); Ysgol Gynradd Goetre (Merthyr Tudful); Ysgol Gynradd Pillgweny (Casnewydd);
- Staff o ddwy ysgol uwchradd gyda lefelau uwch na'r cyfartaledd a lefelau uchel iawn o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim: Ysgol Gyfun Sandfields (Port Talbot) ac Ysgol Uwchradd Casnewydd; ac
- Ymwelodd Aelodau'r Pwyllgor ag Ysgol Gynradd Tregatwg, y Barri.

138. Mae nifer o astudiaethau wedi dod i'r casgliad na all ysgolion eu hunain oresgyn y cysylltiadau rhwng tlodi a chyrhaeddiad plant ac wedi pwysleisio pwysigrwydd ymgysylltiad rhieni a'r gymuned³. Dywedodd yr Athro Egan y gallai arferion da o ran ymgysylltiad rhieni sicrhau'r trawsnewid sydd ei angen, ond ei fod yn rhy gyfyngedig, bregus ac ar hap bron yn y ffordd y

³ Egan. D; [Communities, families and schools together: a route to reducing the impact of poverty on educational attainment on educational achievement in schools across Wales](#); Mai 2012, Achub y Plant Cymru.

mae'n digwydd. Awgrymodd hefyd fod angen tystiolaeth gadarn a manwl ar effaith ymgysylltu, yn enwedig ar gyfer rhaglenni sy'n benodol i Gymru.

139. Pwysleisiwyd y dylai ymgysylltu llwyddiannus gyda rhieni fod yn broses barhaus, ac y dylid eu meithrin a'u cynnal er mwyn bod yn effeithiol. Ceir amrywiaeth sylweddol yn swm ac ansawdd ymgysylltiad rhieni, hyd yn oed ar lefelau lleol iawn. Roedd hyn yn aml oherwydd fod penaethiaid unigol yn cymryd rôl arweinyddiaeth gref i lywio ymgysylltu.

140. Dylai ysgolion ddefnyddio ystod o strategaethau, gan gynnwys ar lefel teuluoedd unigol. Roedd yr ysgolion hynny a oedd yn llwyddiannus yn monitro a gwerthuso effaith eu strategaethau, er enghraifft drwy gyfri'r ymweliadau â gwefan yr ysgol a chynnal arolwg o rieni yn rheolaidd i ganfod eu safbwyntiau.

141. Awgrymwyd bod cyflwyno rhai polisiâu penodol wedi arwain at ganlyniadau anfwriadol ar y berthynas rhwng rhieni ac athrawon. Dywedodd NUT Cymru: "frontline teachers have given consistent feedback that school banding, literacy and numeracy testing, and no doubt in time, the introduction of truancy fines, have all undermined that existing relationship [with parents]".

142. Mae cyfathrebu effeithiol yn fater allweddol ar gyfer ymgysylltiad ystyrlon â rhieni - y farn oedd mai amrywiaeth o ddulliau ymgysylltu, wedi'u teilwra i wahanol anghenion y rhieni, yw'r arfer gorau. Rhoddwyd enghreifftiau o ysgolion yn defnyddio ystod o ddulliau i gyfathrebu â rhieni, gyda phwyslais ar hygyrchedd. Fodd bynnag, roedd ysgolion llwyddiannus wedi canfod yn aml mai'r ffordd orau o ymgysylltu â rhieni oedd cyfathrebu a gweithio gyda nhw wyneb-yn-wyneb. Mae ysgolion o'r fath wedi mabwysiadu polisi mwy na "drws agored". Er enghraifft, mewn rhai ysgolion cynradd, mae uwch arweinwyr ac aelodau o staff yn fwriadol yn cynllunio i gwrdd â rhieni ar ddechrau ac ar ddiwedd y diwrnod ysgol.

143. O ran cyfathrebu ysgrifenedig gyda rhieni, awgrymodd llawer fod yr iaith a ddefnyddiwyd yn aml yn gymhleth neu'n anodd ei deall, ac y dylid ystyried hygyrchedd i rieni o bob gallu wrth anfon llythyrau adref gyda disgyblion, er enghraifft. Hefyd, dywedodd rhieni wrth y Pwyllgor eu bod yn ymgysylltu mwy ag ysgolion pan fyddant yn cael adborth cadarnhaol gan yr ysgol (fel cerdyn post gan yr athro yn canmol ymddygiad da), yn hytrach na phan oedd yr ysgol ond yn cysylltu pan oedd problem.

144. Dywedodd rhai rhieni wrth y Pwyllgor nad oeddynt yn gallu helpu eu plant gyda gwaith ysgol gan nac oedd ganddynt y sgiliau sylfaenol i wneud

hynny. Dywedodd rhai rhieni bod yn rhaid iddynt gael nifer o swyddi er mwyn cael dau ben llinyn ynghyd â bod hyn wedi cael effaith ar yr amser oedd ganddynt i feithrin perthynas â'r ysgol a helpu plant gyda'u gwaith cartref.

145. Dywedodd nifer o ymatebwyr wrth y Pwyllgor pa mor bwysig yw staff sydd â'r rôl o feithrin ymgysylltiad rhieni ee gweithwyr cynhwysiad teulu. Mewn perthynas â hyn, dywedodd rhai penaethiaid wrthym fod ansicrwydd ynghylch cyllid hirdymor y Grant Amddifadedd Disgyblion yn effeithio ar flaengynllunio.

146. Mae llawer o gyfranwyr at ymchwiliad y Pwyllgor wedi pwysleisio pa mor bwysig yw rôl Ysgolion Bro. Pan welodd y rhieni fod yr ysgol yn rhan ganolog o'r gymuned, fe arweiniodd hynny, ar y cyfan, at welliannau o ran ymgysylltu.

Costau sy'n gysylltiedig ag addysg

147. Un mater allweddol a godwyd gan rieni oedd y gost sy'n gysylltiedig ag addysg. Nid yn unig roedd hyn yn rhwystr i gyfranogiad disgyblion, ond gallai fod yn rhwystr i ymgysylltiad rhieni. Roedd yn amlwg o drafodaethau'r Pwyllgor gyda rhieni bod diffyg eglurder ynghylch polisiau ar y mater hwn, gyda llawer o rieni heb fod yn gwybod bod rhai costau yn wirfoddol. Dywedodd rhieni wrthym:

- Roeddent yn teimlo bod rhagdybiaethau yn cael eu gwneud gan yr ysgol y gallai rhieni fforddio talu am deithiau ac offer;
- Roeddent yn cael mwy nag un cais am arian ar yr un pryd yn aml iawn; roedd hyn yn anodd pan fo mwy nag un plentyn yn y teulu;
- Roedd costau teithiau yn cynyddu hyd yn oed pan fyddant yn ymddangos yn y lle cyntaf i fod yn rhad, ee arian ar gyfer bws; pecynnau bwyd; cost y daith; a dillad priodol;
- Roedd "costau cudd" yn aml, fel gwaith cwrs TGAU celf lle roedd rhiant wedi talu am argraffu 200 o luniau am 5 ceiniog yr un; enghraifft arall oedd costau TGAU Economeg y Cartref, oherwydd yr angen i brynu cynhwysion;
- Weithiau, gallai costau posibl ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n ymwneud ag addysg, megis pa gwrs TGAU i'w gymryd; ac
- Roedd ysgol mewn ardal ddifreintiedig wedi trefnu taith i Efrog Newydd a theimlai rhieni o dan bwysau i gytuno y gallai eu plant fynd, er gwaethaf y ffaith na allent ei fforddio.

148. Mater arall a dynnwyd i sylw'r Pwyllgor oedd effaith bosibl tlodi digidol ar blant o gartrefi incwm isel.

149. Nododd yr Athro Egan: “on the whole point about uniforms, trips and so forth, there is no evidence, of course, that any of that improves outcomes. However, all professionals feel that that is the right thing to do in terms of mitigating the effects of poverty”.

Tystiolaeth y Gweinidog

150. Mewn perthynas ag ymgysylltiad rhieni, cyfeiriodd dystiolaeth y Gweinidog at:

- 'Becyn Cymorth Ymgysylltu â'r Teulu â'r Gymuned', Llywodraeth Cymru, y disgwyliid i gael ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2015, gyda chynllun gweithredu wedi'i gyhoeddi ar y cyd;
- Ymgyrch Llywodraeth Cymru: "Mae Addysg yn Dechrau yn y Cartref"; a'r
- Gwaith a wneir gydag Estyn i gynhyrchu canllawiau atodol ar gyfer arolygwyr o ran ymgysylltiad rhieni.

151. Pan roddodd dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor, pwysleisiodd y Gweinidog ei ymrwymiad i fynd i'r afael ag ymgysylltiad rhieni, gan gydnabod y byddai, os na fyddai'n cael ei ddatrys, yn cael effaith luosol enfawr o ran cyrhaeddiad y plant. Aeth ymlaen i ddweud:

“It has to be tackled on various levels. Colleagues will have noticed the television campaign at the all-Wales level, which was quite cheap and cheerful, really. In terms of monitoring and evaluating that TV campaign, we have had some really quite remarkable levels of engagement from parents. People remember that TV advert, and all the surveys are showing us that people are engaging with the message that it gives. Of course, the key actor in the drama is the school itself. There will be—and I do not think it is quite ready yet—a family engagement toolkit, which will be going out to schools very soon, so that no school is deprived of examples of best practice, ideas and evidence-based suggestions for what they should be doing. Of course, there will also be guidance to go along with that.”

152. Cyfeiriodd y Gweinidog hefyd at newidiadau a oedd wedi'u gwneud i gynlluniau datblygu ysgolion mewn perthynas â'r mater hwn. Cyfeiriodd hefyd at gydweithio â phrosiectau Cymunedau yn Gyntaf:

“Those development plans have to incorporate plans around family and community engagement, which is a legal requirement of what schools need to be planning for. In terms of at least some schools, we have a crossover with Communities First as well. A great number of Communities First schools are now employing family support officers. I have seen and spoken to a couple of these family support officers, who are remarkable people, actually, and are doing that very human job of face-to-face contact, quite often with very hard to reach parents and quite disengaged parents. They are doing fantastic things.”

153. O ran y costau sy'n gysylltiedig ag addysg, cyfeiriodd tystiolaeth y Gweinidog at nifer o ddatblygiadau, gan gynnwys:

“As the committee has requested, the forthcoming Family and Community Engagement Toolkit for schools (and later, the Learning Pack) will make reference to these costs as one of the potential barriers to family engagement. The implementation plan will work to ensure that the message is also communicated to governing bodies.”

“In early 2015 we will be publishing guidance and resources for schools on enrichment activities that broaden the curriculum and engage pupils with learning and with school life, and where costs (of trips, sports equipment, music fees, after school clubs) often need to be met by parents. We will provide schools with evidence on the types of enrichment activities that are best able to improve educational and well-being outcomes for children from deprived backgrounds, and clearly set out their eligibility for PDG spend. [...] We will use this guidance as a further opportunity to make reference to the costs of education.”

154. Cyfeiriodd y Gweinidog hefyd at y defnydd o staff nad ydynt yn addysgu, fel swyddogion cyswllt ysgolion, fel cyswllt â'r gymuned ac i hyrwyddo ymgysylltiad â'r ysgol:

“I think that it is worth delving into this and doing a piece of work in terms of just what kind of value for money such people provide—I am convinced that they do provide value for money—and what exactly the best practice is. Should we periodically get these professionals together, so that they can learn from each other and so on? At the moment, they are something of an anomaly in terms of the teaching family or the support family around the school. So, I take your point.

They have evolved almost spontaneously out of the system, which is a good thing, but I think that it is probably now worth my department taking a look in a structured way at how we can get even better value out of those examples.”

Safbwynt y Pwyllgor

155. Un o'r negeseuon allweddol i ddeillio o'r ymchwiliad hwn oedd y bydd effaith unrhyw raglen neu bolisi yn gyfyngedig, ni waeth pa mor uchelgeisiol ydyw, heb ddulliau effeithiol o ran ei darparu. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd arweinyddiaeth ysgolion ar gyfer yr agenda hon. Ers creu'r consortia, rydym yn pryderu efallai bod eu rolau mewn perthynas ag awdurdodau lleol wedi arwain at ddiffyg eglurder, yn enwedig o ran cyfrifoldeb ac atebolrwydd.

156. Bydd yn anodd i ysgolion ar eu pen eu hunain sicrhau'r newid ar y raddfa sydd ei hangen i gau'r bwlch cyrhaeddiad. Rydym wedi clywed tystiolaeth helaeth y gallai ymgysylltiad gwell rhwng ysgolion a rhieni, pe bai'n cael ei ddefnyddio'n gywir, gyfrannu'n sylweddol at gyflawni'r newid sydd ei angen. Clywsom rai enghreifftiau gwych o sut mae hyn yn digwydd mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru. Fodd bynnag, mae arfer da yn anghyson iawn ar draws Cymru ac, mewn rhai achosion, nid oes y fath beth ag ymgysylltiad rhieni.

157. Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i ymgysylltu â rhieni ac yn croesawu ymgyrch Llywodraeth Cymru, "Mae addysg yn dechrau yn y cartref" a chyhoeddi'r "Pecyn Cymorth i Ymgysylltu â'r Teulu a'r Gymuned" cyn bo hir. Yr her i Lywodraeth Cymru yw sicrhau bod pob corff llywodraethu ac ysgolion yn sgil hynny yn cefnogi'r agenda hon.

158. Roeddem yn bryderus iawn o glywed tystiolaeth am y costau cudd sy'n gysylltiedig ag addysg. Rhoddwyd nifer o enghreifftiau i'r Pwyllgor, gan gynnwys un lle roedd un rhiant wedi gwario cyfran sylweddol o gyllideb siopa bwyd wythnosol y teulu ar gynhwysion i'w plentyn i'w defnyddio mewn arholiad ymarferol TGAU Economeg y Cartref.

159. Roedd y Pwyllgor yn pryderu hefyd am dystiolaeth a ddaeth i law bod rhai ysgolion yn trefnu teithiau tramor gyda gwerth addysgol sy'n ddibwys. Mae'r Pwyllgor hwn yn cefnogi'r defnydd o deithiau ysgol, ond dylent fod yn amlwg o werth addysgol neu gyfrannu at ddatblygiad y disgyblion. Os yw taith ysgol o werth addysgol, rydym yn disgwyl na ddylai costau rwystro unrhyw blentyn rhag cymryd rhan.

160. Roedd diffyg eglurder wrth gyfleu'r wybodaeth i rieni bod rhai taliadau yn wirfoddol. Dylai'r Gweinidog gryfhau ac egluro canllawiau i ysgolion ynghylch codi tâl am weithgareddau sy'n ymwneud ag addysg. Dylai'r Gweinidog archwilio'r posibilrwydd o gyflwyno canllawiau statudol, os nad yw'n fodlon bod y canllawiau presennol wedi cael yr effaith angenrheidiol.

161. Yn olaf, nododd y Pwyllgor yr ymateb cadarnhaol a gafwyd gan rieni i staff nad ydynt yn addysgu, fel swyddogion cyswllt ysgolion. Gallant chwarae rhan bwysig, yn enwedig o ran ymgysylltu â'r teuluoedd hynny sydd fwyaf anodd eu cyrraedd, drwy feithrin perthynas ac ymddiriedaeth. Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i wneud rhywfaint o waith i archwilio'r effaith a gaiff rolau o'r fath.

Argymhellion

Dylai'r Gweinidog gryfhau ac egluro canllawiau i ysgolion ynghylch codi tâl am weithgareddau sy'n ymwneud ag addysg. Os nad yw'r Gweinidog yn fodlon bod canllawiau presennol wedi cael yr effaith angenrheidiol, dylai gyflwyno canllawiau statudol.

Dylai'r Gweinidog gyhoeddi canllawiau i ysgolion er mwyn sicrhau eu bod yn ei gwneud yn glir i rieni beth yw dibenion addysgol teithiau ysgol arfaethedig.

Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ei waith o werthuso'r defnydd o staff nad ydynt yn addysgu, fel swyddogion cyswllt ysgolion.

Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor o fewn 6 mis ar gynnydd y mentrau i hyrwyddo ymgysylltiad rhieni, gan gynnwys y Pecyn Cymorth Ymgysylltu â'r Teulu a'r Gymuned.

Atodiad A - Tystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=6996

Undeb Cenedlaethol yr Athrawon Cymru	EO 01
Barnardo's Cymru	EO 02
Cymunedau a 'Sgolion fel Tîm (CaST Cymru)	EO 03
Llywodraethwyr Cymru	EO 04
GL Assessment	EO 05
Undeb Prifysgolion a Cholegau	EO 06
Afasic Cymru	EO 07
Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant	EO 08
Comisiynydd Plant	EO 09
Achub y Plant	EO 10
Achub y Plant - Teithio Ymlaen	EO 11
Estyn	EO 12
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)	EO 13
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru	EO 14
Sefydliad Bevan	EO 15
Yr Athro David Egan	EO 16
Llywodraeth Cymru	EO 17
Yr Uned Pobl a Gwaith	EO 18
Prifysgol Dinas Llundain	EO 19

Atodiad B – Tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r sesiynau tystiolaeth lafar yn www.senedd.cynulliad.cymru/ielIssueDetails.aspx?Ild=6996&Opt=3

14 Tachwedd 2013

Ann Keane	Prif Arolygydd EM - Estyn
Meilyr Rowlands	Cyfarwyddwr Strategol – Estyn
Simon Brown	Cyfarwyddwr Strategol - Estyn
Yr Athro David Egan	

20 Tachwedd 2013

Victoria Winckler	Cyfarwyddwr Sefydliad Bevan
Mary Powell-Chandler	Pennaeth Cymru – Achub y Plant
Trudy Aspinwall	Swyddog Rhaglen – Teithio Ymlaen

28 Tachwedd 2013

Ymweliad Pwyllgor i Ysgol Gynradd Tregatwg

6 Chwefror 2014

Huw Lewis AC	Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Emma Williams	Pennaeth Cymorth i Ddysgwyr – Llywodraeth Cymru
Jo-Anne Daniels	Cyfarwyddwr Seilwaith, Cwricwlwm, Cymwysterau a Chymorth i Ddysgwyr – Llywodraeth Cymru

20 Chwefror 2014

Ymweliad â chanolfan ym Mharc Caia, Cymunedau yn Gyntaf, Wrecsam
Ymweliad â chanolfan deulu yng nghlwstwr y Dwyrain, Cymunedau yn Gyntaf, Abertawe

5 Mawrth 2014

James Hall	Rheolwr Prosiect Ymchwil Gweithredu – yr Uned Pobl a Gwaith
Andrea Williams	Gweithiwr Prosiect – yr Uned Pobl a Gwaith
Rachel Morris	Rhiant
Ann Broadway	Gweithiwr Cymorth Addysg i Deuluoedd, Ysgol Gynradd Goetre

Kath Bevan
Bev Phillips

Pennaeth – Ysgol Gynradd Pilgwenlli
Pennaeth – Ysgol Gynradd Blaen y Maes

13 Mawrth 2014

Pam Boyd
Dr Rachel Jones
Mike Gibbon
Karyn Keane

Prif Weithredwr – CaST Cymru
Ysgol Uwchradd Eirias
Pennaeth – Ysgol Gyfun Sandfields
Pennaeth – Ysgol Uwchradd Casnewydd

3 Rhagfyr 2014

Huw Lewis AC
Jo-Anne Daniels

Emma Williams
Brett Pugh

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Cyfarwyddwr Seilwaith, Cwricwlwm, Cymwysterau a
Chymorth i Ddysgwyr – Llywodraeth Cymru
Pennaeth Cymorth i Ddysgwyr – Llywodraeth Cymru
Cyfarwyddwr – Grŵp Safonau Ysgolion a'r Gweithlu –
Llywodraeth Cymru